

hico

PASSIONATE
ABOUT PUBLIC SERVICE

**Aseiad o Anghenion Grant
Cymorth Tai Cyngor
Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf**

Cynnwys

Cyflwyniad

Cefndir a Chyd-destun Polisi Cenedlaethol

Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf

[Asesiad Lles](#)

[Cynllun Llesiant](#)

[Amddifadedd](#)

Digartrefedd yn RhCT

[Tueddiadau Cenedlaethol yng Nghymru](#)

[Effaith Covid-19](#)

[Adolygiad Cyflym o Wasanaethau Digartref](#)

[Deilliannau ar gyfer Pob Dyletswydd](#)

Cipolwg ar yr Anghenion Cymorth Tai Mwyaf Sylweddol

[Iechyd Meddwl](#)

[Camddefnyddio Sylweddau](#)

[Cyn-droseddwyr](#)

[Anabledd Dysgu](#)

[Plant a Phobl Ifainc](#)

[Pobl Hŷn](#)

[Anabledd Corfforol a Nam Synhwyraidd](#)

[Cynhalwyr](#)

[Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol \(VAWDASY\)](#)

Llety

[Galw ar y Gwasanaeth Dyrannu Llety](#)

[Defnyddio Llety Dros Dro](#)

[Y Sector Rhentu Preifat](#)

[Cynllunio ac Adeiladu](#)

Gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai

[Cymorth fel y bo angen](#)

[Llety â Chymorth](#)

[Gwasanaethau eraill y Grant Cymorth Tai](#)

[Atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai](#)

[Gwasanaethau Presennol y Grant Cymorth Tai](#)

[Y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Oedolion](#)

[Y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Blant](#)

Deilliannau Cymorth Tai

[Deilliannau Llety â Chymorth](#)

[Deilliannau Cymorth fel y bo angen](#)

[Rhestrau Aros](#)

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

[Partneriaid Statudol](#)

[Rhanddeiliaid y GIG](#)

Adborth gan Ddefnyddwyr y Gwasanaeth

Atodiadau

[Atodiad 1](#)

Cyflwyniad

Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant blaenorol; y Rhaglen Gwasanaethau Cymorth i Bobl, y Grant Atal Digartrefedd, a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru.

Daeth y grant i fodolaeth ym mis Ebrill 2019 yn dilyn prosiect braenaru arian hyblyg Llywodraeth Cymru. Gwnaed penderfyniad Gweinidogol ym mis Hydref 2018 i ffurfio dau grant o waith y grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth (Saesneg- EIPS), gan wahanu'r grantiau sy'n ymwneud â thai oddi wrth elfennau sydd ddim yn ymwneud â thai ar gyfer pob awdurdod lleol. O ganlyniad i hynny, ym mis Ebrill 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grant Plant a Chymunedau. Mae'r grant yn cynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifainc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy, Gofal Plant a Chwarae, ac un Grant Cymorth Tai (GCT) (sy'n cwmpasu'r Gwasanaethau Cymorth i Bobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru).

Rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad anghenion cynhwysfawr bob pedair blynedd, gydag adolygiad llai manwl bob dwy flynedd. Mae'r asesiad yma'n ddatganiad o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wybod am anghenion a'r galw fydd yn y dyfodol am wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai. Mae'r asesiad yn cwmpasu'r gofyniad statudol am adolygiad o ddigartrefedd yn ogystal ag asesiad llawn ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Caiff yr asesiad ei lywio gan y data canlynol:

- Asesiad o anghenion y boblogaeth
- Asesiad llesiant yr awdurdodau lleol
- Ystadegau digartrefedd a data tai arall megis rhestrau aros.
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Asesiadau anghenion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol
- Unrhyw gyhoeddiad ymchwil/cenedlaethol perthnasol
- Deilliannau'r data
- Mae angen data gan ddarparwyr, paneli porth
- Data anghenion heb eu diwallu dros y 12 mis diwethaf gan ddarparwyr, adolygiadau digartrefedd

Dylai awdurdodau lleol gynhyrchu 'Datganiad o Angen' yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o anghenion. Dylai'r datganiad nodi'r gofynion presennol a'r galw yn y dyfodol. Dylai gynnwys anghenion rhanbarthol lle caiff yr anghenion eu diwallu gan yr awdurdod lleol. Dylai'r datganiad hefyd nodi sut y bydd anghenion statudol a nodwyd yn cael eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol.

Cefndir a Chyd-destun Polisi Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghyd-destun effaith hirdymor polisi Llywodraeth y DU. Mae hynny mewn perthynas â chaledi cyllidol a chymorth lles, a hefyd meysydd polisi eraill sydd ddim wedi'u datganoli ond sy'n effeithio ar ddigartrefedd, megis gwaith yr Heddlu a'r Carchardai. Mae dyletswydd yr awdurdodau lleol i atal a lleddfu digartrefedd wedi arwain at gryfhau trefniadau partneriaeth leol. Mae'r egwyddor arweiniol yn parhau i fod yn un o atal digartrefedd, ond lle dydy hynny ddim yn bosibl, sicrhau bod digartrefedd yn sefyllfa tymor byr yn unig a ddim digwydd eto. Mae ymrwymiad o'r newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym. Bydd deall beth sy'n gweithio, beth sy'n addawol, a beth sydd ddim yn effeithiol yn hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth iddi gyflawni ei nodau polisi.

Roedd Tai yn Gyntaf yn newid cyfeiriad i'r Llywodraeth, mewn ymateb i dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o'i effeithiolrwydd. Ceisiodd ymateb Cam 2 yn ystod camau cychwynnol y pandemig amddiffyn pobl ddigartref trwy ddarparu datrysiadau llety dros dro a lleihau digartrefedd stryd yn sylweddol. Wrth i ni ddychwelyd yn ôl i 'normalrwydd' yn raddol fach, mae cyfle i werthuso effaith a manteision yr amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu hariannu i lywio'r cam datblygu polisi nesaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar atal ac ailgartrefu cyflym.

Mae sawl egwyddor allweddol yn sail i ddull Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd, a dylai'r rhain gael eu hymgorffori ar draws gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau a sy'n cael eu comisiynu:

- Mae'r camau atal cynharaf yn fwyaf effeithiol a mwyaf cost effeithiol a dylen nhw fod yn ymyriadau o ddewis cyntaf bob amser.
- Mae mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater i wasanaethau cyhoeddus yn hytrach na 'mater i'r gwasanaethau tai'.
- Dylai pob gwasanaeth ganolbwyntio ar yr unigolyn a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n effro i drawma.
- Dylai'r dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fod y llinell amddiffyn olaf – nid y gyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio i ysbryd nid llythyren y gyfraith yn unig.
- Dylai polisi, darpariaeth gwasanaethau ac ymarfer gael eu llywio a'u siapio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y rhai sydd â phrofiad bywyd.

Isod mae crynodeb o ddeddfwriaethau a pholisiau perthnasol a'r effaith maen nhw'n bwriadu ei greu:

Polisi a deddfwriaeth	Camau gweithredu/effaith/diben a fwriedir
Polisi a deddfwriaeth	Camau gweithredu/effaith/diben a fwriedir
• Deddf Tai (Cymru) 2014 (Rhan 2)	• Dyletswydd gryfach newydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i atal a lleddfu digartrefedd, gyda phwyslais ar atal

Polisi a deddfwriaeth	Camau gweithredu/effaith/diben a fwriedir
<ul style="list-style-type: none"> · Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rhan 6) 	<ul style="list-style-type: none"> · Cryfhau trefniadau ar gyfer gadael gofal gan gynnwys llety a chymorth addas
<ul style="list-style-type: none"> · Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 	<ul style="list-style-type: none"> · Darparu sail ar gyfer ystyried holl bolisiau gwasanaethau cyhoeddus a chynllunio gwasanaethau gyda phwyslais ar lesiant, atal ac ymyrraeth gynnar
<ul style="list-style-type: none"> · Deddf Cydraddoldeb 2010 	<ul style="list-style-type: none"> · Dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb, yn ystyried nodweddion gwarchoddedig, a dyletswydd newydd i ystyried anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol
<ul style="list-style-type: none"> · Cyhoeddiad Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: (Llywodraeth Cymru, 2006) 	<ul style="list-style-type: none"> · Rhoi cymorth i bobl ifainc ag annibyniaeth economaidd trwy roi cyngor ar dai, cyflwyno opsiynau, ac atal digartrefedd
<ul style="list-style-type: none"> · Fframwaith Llety a Chymorth i'r Sawl sy'n Gadael Gofal, (Barnardo's 2016) 	<ul style="list-style-type: none"> · Bod yn gefn i brosesau cynllunio, darparu tai a chymorth effeithiol i bobl ifainc a'r sawl sy'n gadael gofal
<ul style="list-style-type: none"> · Llundio Rhaglen "Pan Fydda i'n Barod" (Llywodraeth Cymru 2016b). 	<ul style="list-style-type: none"> · Galluogi pobl ifainc dan ofal rhieni maeth i aros gyda nhw'n hirach
<ul style="list-style-type: none"> · Cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (Llywodraeth Cymru 2014) 	<ul style="list-style-type: none"> · Lleihau nifer y bobl ifainc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
<ul style="list-style-type: none"> · Sefydlu ymgyrch Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru 2018 	<ul style="list-style-type: none"> · Yn canolbwyntio ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> o dileu digartrefedd ieuenctid yn y gymuned LGBT+; o lleihau'r cysylltiadau rhwng ymddieithrio addysgol a digartrefedd ieuenctid; o lleihau'r cysylltiadau rhwng y system ofal a digartrefedd pobl ifainc; a o rhoi cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl.
<ul style="list-style-type: none"> · Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) 2018 	<ul style="list-style-type: none"> · Ymchwil i achosion ac atal digartrefedd ymysg pobl ifainc
<ul style="list-style-type: none"> · Gwerthuso gwasanaethau digartrefedd i bobl ifainc mewn sefydliadau diogel (Llywodraeth Cymru) 2019 	<ul style="list-style-type: none"> · Deall effeithiau cynnar y ddeddfwriaeth ar y bobl ifainc hynny sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref wrth iddyn nhw nesáu at gael eu rhyddhau

Polisi a deddfwriaeth	Camau gweithredu/effaith/diben a fwriedir
<ul style="list-style-type: none"> Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2018 	<ul style="list-style-type: none"> Polisi o symud pobl sy'n ddigartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol yn ôl yr angen
<ul style="list-style-type: none"> Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd 2019 	<ul style="list-style-type: none"> Yn nodi'r dull strategol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru
<ul style="list-style-type: none"> Cam 2 – Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth Cysylltiedig â Thai 2020 	<ul style="list-style-type: none"> Canolbwyntio ar drawsnewid dulliau o atal digartrefedd wrth sicrhau bod pawb sy'n cacel llety dros dro yn sicrhau llety hirdymor
<ul style="list-style-type: none"> Cam 3 – Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth Cysylltiedig â Thai 2020 wrth symud i'r 'Normal Newydd' 	<ul style="list-style-type: none"> Dylunio ac adeiladu gwasanaethau cadarn, cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
<ul style="list-style-type: none"> Y fframwaith polisiau, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd eu hangen i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru – Adroddiad gan Grŵp Gweithredu Digartrefedd Llywodraeth Cymru 2020 	<ul style="list-style-type: none"> Sut dylai dileu digartrefedd yng Nghymru edrych o safbwynt polisi cyfannol Gwneud y mwyaf o gamau atal digartrefedd ar bob cam, e.e. ymateb i argyfwng, atal/targedu'n gynharach ar gyfer pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd, a dull gweithredu cyffredinol ar draws y gymdeithas i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol Sicrhau bod ailgartrefu cyflym yn ddull rhagosodedig i helpu pobl ddigartref i gael eu hailgartrefu'n gyflym, gyda'r holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw Buddsoddi mewn pobl i helpu i ddod â digartrefedd i ben drwy ariannu a chefnogi gweithluoedd, cynnwys pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd, a sicrhau mwy o gyfraniad gan elusennau a gwirfoddolwyr

Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf

Crynodeb

- Rhondda Cynon Taf (RhCT) yw'r ail awdurdod mwyaf yng Nghymru
- Mae RhCT yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Serch hynny, mae patrwm amddifadedd ar draws RhCT yn anghyson.
- Mae'r patrwm amddifadedd ar draws RhCT yn anghyson ac wedi crynodi mewn ardaloedd penodol.

- Mae cartrefi yn fwy fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf na mewn ardaloedd eraill o Gymru, ond yn parhau i fod y tu hwnt i gyrraedd pobl ifainc a'r rhai sydd ar incwm bach.
- Mae dangosyddion ar gyfer iechyd, incwm, cyflogaeth a thai yn amlygu'r pwysau gwahanol posibl y mae pobl yn eu hwynebu, ac sy'n eu rhoi, efallai, mewn sefyllfa fwy bregus o ran digartrefedd,
- Mae poblogaeth hŷn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu, ac mae angen ystyried y boblogaeth yma wrth gynllunio anghenion tai a chymorth y gymuned dros y ddau ddegawd nesaf.

Rhondda Cynon Taf (RhCT) yw'r ail awdurdod mwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 234,410 yn ôl cyfrifiad 2011. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu ardal o 424 cilomedr sgwâr ac yn ffinio â Merthyr Tudful a Chaerffili i'r dwyrain, Caerdydd, a Bro Morgannwg i'r de, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd. Y prif drefi yn yr ardal yw Aberdâr, Llantrisant a Phontypridd.

Poblogaeth

Ar adeg cofnodi cyfrifiad 2011, cyfanswm poblogaeth RhCT oedd 234,410, ac roedd yn cynnwys:

- 50,131 o bobl dan 18 oed,
- 22,403 o bobl rhwng 18 a 24 oed,
- 121,803 o bobl rhwng 25 a 64 oed a
- 40,073 o bobl 65 oed neu'n hŷn

Yn 2011, oedran cymedrig y boblogaeth oedd 39.8. Roedd 105,269 o anheddau, gyda'r boblogaeth yn byw mewn 99,663 ohonyn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 36,388 o aelwydydd lle mae'r bobl/y person sy'n byw yn yr eiddo, yn berchen arno;
- 34,422 eiddo â morgais sy'n parhau i gael ei dalu;
- 150 o aelwydydd lle mae perchnogaeth wedi'i rhannu;
- 13,673 o aelwydydd sy'n dai cymdeithasol ar osod;
- 13,604 o aelwydydd yn y sector rhentu preifat;
- 1,476 o aelwydydd yn byw yn ddi-rent mewn rhyw fath o ddaliadaeth.

Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod 241,873 o bobl yn byw yn RhCT ym mis Mehefin 2020¹, gostyngiad o 459 o bobl o amcangyfrif 2019. Rydyn ni'n rhagweld y bydd cyfanswm poblogaeth RhCT yn tyfu'n gymedrol, yn bennaf o ganlyniad i fudo, tra bydd demograffeg y boblogaeth yn newid yn sylweddol wrth i bobl 65+ oed dyfu'n gyfran fwy o'r boblogaeth. Rydyn ni'n rhagweld y bydd poblogaeth yr ardal yn tyfu i 252,418 erbyn 2040, twf o 4% o amcangyfrif 2020.

Rhwng 2018 a 2040, mae rhagamcanion poblogaeth yn awgrymu y bydd nifer y bobl 65+ oed yn tyfu o 45,994 i 57,715, sef twf o 25%. Mae grwpiau oedran hŷn yn cyfrannu'n

¹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year>

sylweddol at lefelau uwch o dwf yn y boblogaeth, a rhagwelir y bydd pobl 80+ oed yn tyfu 45% yn ystod yr un cyfnod. Felly, bydd y boblogaeth yn heneiddio a bydd anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy cymhleth a dwys.

Ardal	Amcangyfrif o'r boblogaeth 2018	Amcanestyniad o'r boblogaeth yn 2040 yn seiliedig ar amcangyfrif 2018	Amrywiant tybiedig yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth	Amrywiant canrannol tybiedig yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth
Rhondda Cynon Taf	240,131	252,418	+12,287	5.1%
Merthyr Tudful	60,183	63,154	+2,971	4.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	144,876	157,328	+12,452	8.6%
Cwm Taf Morgannwg	445,190	472,900	+27,710	6.2%

Tabl 1 Amcanestyniad o'r boblogaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn 2040 o gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos²

Tai

Mae milltir sgwâr rhywun yn cael dylanwad mawr ar ei lesiant, gyda chysylltiadau rhwng tai ac iechyd meddwl a chorfforol. Yn Rhondda Cynon Taf, mae nifer o ardaloedd wedi'u nodi'n rhai sydd â lefelau sylweddol o amddifadedd tai megis Gorllewin Aberpennar a Chanol Rhydfelen.

Ein hasedau economaidd:

- Mae adfywio trefol yn Rhondda Cynon Taf yn rhoi'r cyfle i ni greu lleoedd sy'n denu buddsoddiad a busnesau a gwella lles. Mae Tylorstown yn enghraifft gyfredol o ardal adfywio.

Heriau economaidd:

- Mae cartrefi yn fwy fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf na mewn ardaloedd eraill o Gymru, ond mae'n bosibl eu bod nhw o hyd y tu hwnt i gyrraedd pobl ifainc a'r rhai sydd ar incwm bach.
- Mae diwygiadau lles wedi effeithio'n wael ar gymunedau, yn arbennig Y Maerdy a Phen-y-waun.

² <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based>

- Mae ardaloedd llai ffyniannus o Gymru gan gynnwys Rhondda Cynon Taf wedi elwa o fuddsoddiad o gyllid Ewropeaidd. Bydd tynnu'r arian yma yn ôl unwaith i Brydain a dael yr Undeb Ewropeaidd yn golled sylweddol.

Asesiad Lles

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gydweithio â phobl RhCT, i sicrhau eu lles yn y dyfodol. Mae'r ddyletswydd yma wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant cenedlaethol, ac mae rhaid i'r Cyngor gyfrannu at y gwaith o'u cyflawni:



Ffigur 1 Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod, ynghyd â'i bartneriaid, gynnal asesiad llesiant yn rhan o'i ymrwymiad i wella llesiant. Wedi'i gyhoeddi yn 2017, bydd y darlun yn cael ei ddiweddarau yn 2022 gyda data'r cyfrifiad newydd a'r Asesiad Llesiant. Bydd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai RhCT yn cael ei hadnewyddu ar ôl dwy flynedd, gan ganiatáu i'r data newydd yma gael ei ymgorffori yn yr asesiad o angen.

Mae canfyddiadau perthnasol Asesiad Llesiant Cwm Taf wedi'u crynhoi isod.

Cynllun Llesiant

O'r Asesiad Llesiant creodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf y Cynllun Llesiant. Mae gan wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cynnal Tai ran sylweddol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni nifer o amcanion allweddol.

Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd

Byddwn ni'n gweithio i ddod o hyd i ffyrdd newydd o sianelu cryfderau diamheuol ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r arwahanrwydd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonyn nhw.

Cymunedau sy'n Ffynnu


Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cydnerth a ffyniannus i wella llesiant trigolion a'r ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau yn y gymuned

Pobl Iach

Helpu pobl i fyw bywyd hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau

Amddifadedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) sy'n mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd gan gynnwys incwm, iechyd ac addysg. Mae data yn y MALIC wedi'i rannu'n Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) sy'n cynnwys 1,500 o bobl ar gyfartaledd – yng Nghymru mae 1,909. Mae hyn yn galluogi mewnwelediad ar lefel gymunedol i amddifadedd cyffredinol a pharthau penodol, megis iechyd, sydd â chysylltiad agos â pha mor agored yw unigolyn i'r peryglo fod yn ddigartref.



Ffigur 2: Map o Gymru fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Is o amddifadedd cyffredinol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019)

Mae RhCT yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda 26 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a mwyafrif yr ACEHI yn yr awdurdod lleol yn y 30% mwyaf difreintiedig.

Mae'r patrwm amddifadedd ar draws RhCT yn anwastad ac wedi'i grynhoi mewn ardaloedd penodol. Mae patrwm amddifadedd ar draws RhCT yn anwastad ac wedi ei grynhoi mewn ardaloedd penodol, i raddau helaeth yng Nghwm Cynon mewn cymunedau fel Penrhiw-ceibr a Phen-y-waun, ac yng Nghwm Rhondda mewn cymunedau fel Tylorstown a Threherbert. Adlewyrchir hyn yn y tabl isod sy'n amlygu'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn yr ardal, gan gynnwys Tylorstown lle mae data dangosydd MALIC yn nodi bod 47% o bobl yr ardal mewn amddifadedd incwm yn 2016/17. Mewn cyferbyniad, mae mwyafrif yr ACEHI yn ne'r Awdurdod Lleol ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig, gydag amddifadedd ar ei isaf o amgylch Llantrisant a Llanilltud Faerdref.

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	Safle MALIC 2014	Safle MALIC 2019	Newid yn y safle cenedlaethol rhwng 2014 a 2019
Tylorstown 1	5	4	-2
Penrhiw-ceibr 1	15	6	-9
Pen-y-waun 2	9	15	+6
Canol Rhydfelen/Llan 2	17	26	+9
Abercynon 2	37	33	-4

Tabl 3: Safleoedd Amddifadedd Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

Mae dangosyddion ar gyfer iechyd, incwm, cyflogaeth a thai yn amlygu'r gwahanol bwysau posibl y mae pobl yn eu hwynebu sydd o bosibl yn eu gwneud nhw'n fwy agored i'r perygl o fod yn ddigartref. Yn y maes iechyd mae hyn yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl, salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar fywyd a chyflyrau iechyd cronig. Mae modd i bob un o'r rhain ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i lety fforddiadwy addas a'i gadw.


Strwythur y Parth

Mae saith dangosydd yn y maes iechyd, wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- 31% o gyflyrau cronig sydd wedi'u cofnodi gan feddygon teulu (cyfradd fesul 100), wedi'u safoni yn ôl rhyw ac oedran.
- 30% o gyflyrau hirdymor sy'n cyfyngu ar fywyd (cyfradd fesul 100), wedi'u safoni yn ôl rhyw ac oedran.
- 18% o farwolaethau cynamserol (cyfradd fesul 100,000) wedi'u safoni yn ôl rhyw ac oedran.
- 10% o gyflyrau iechyd meddwl wedi'u cofnodi gan feddygon teulu (cyfradd fesul 100), wedi'u safoni yn ôl rhyw ac oedran.

- 4% o achosion o ganser (cyfradd fesul 100,000), wedi'u safoni yn ôl rhyw ac oedran.
- 4% o bwysau geni isel (genedigaethau byw sengl llai na 2.5kg, canran)
- 3% o blant 4-5 oed sy'n ordew (canran)

Ar gyfer y dangosyddion uchod, mae'r ffigurau ar gyfer cymunedau mwy difreintiedig yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon yn y rhan fwyaf helaeth o achosion, yn waeth na chymunedau yn ne'r sir. Mae lefelau digartrefedd ac ansicrwydd llety yn RhCT yn debygol o adlewyrchu lefelau amddifadedd, yn enwedig ar gyfer ardaloedd sy'n cyflawni'n waeth yn y meysydd sydd wedi'u nodi uchod.



Ffigur 3: Map o Gymru fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is – amddifadedd iechyd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019)

Digartrefedd yn RhCT

Crynodeb

- Mae'r deilliannau sy'n dilyn cyflwyniadau i'r Cyngor ar atal a lleddfu digartrefedd, yn gyffredinol yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod y cyfnod cyn pandemig Covid-19.
- Yn dilyn y sbardun i gyflawni dyletswydd i helpu i sicrhau llety (adran 73), roedd y deilliannau'n sylweddol well yn RhCT na chyfartaledd Cymru.

- Mae cyfran yr aelwydydd a gafodd eu hasesu'n ddigartref a ble mae dyletswydd i'w helpu i sicrhau diogelwch, ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae'r argymhellion yn gwneud cynnydd da yn dilyn adolygiad cyflym o wasanaethau digartrefedd ym mis Rhagfyr 2020

Mae'r adran yma'n dadansoddi'r data ar gyfer:

- Tueddiadau digartrefedd cenedlaethol
- Effaith COVID-19 ar gyflwyniadau digartrefedd
- Cyflawniad yn erbyn pob un o ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014
- Adolygiad Cyflym o Wasanaethau Digartrefedd yn RhCT

Mae ystadegau digartrefedd a data tai wedi dod yn bennaf o ddata cymorth yr ALL ei hun a'i ddatganiadau WHO12 chwarterol. Mae data o 2021 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr ac Awst, oni nodir yn wahanol, ac felly fydd unrhyw dueddiadau a dehongliadau o'r data ddim o reidrwydd yn cyfrif am newidiadau sy'n digwydd ar ôl mis Awst.

Mae'r data'n dangos bod mwyafrif yr aelwydydd sydd naill ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn RhCT yn aelwydydd un person, a'r mwyafrif ohonyn nhw'n yn ddyinion.




Ffigur 2: Siart Llif – Dyletswydd Digartrefedd Llywodraeth Cymru

Tueddiadau Cenedlaethol yng Nghymru

Caiff y tueddiadau canlynol eu nodi ar sail ffurflenni data chwarterol gan Awdurdodau Lleol i Lywodraeth Cymru (WHO12) ar gyfer 2019/20, sy'n cael eu cyhoeddi ar-lein gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data'n dangos bod deilliannau RhCT ar gyfer atal a lleddfu ar ôl cyflwyniadau yn well ar gyfartaledd na'r cyfartaledd cenedlaethol, a hefyd cyfartaledd Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth cyfagos. Mae'r canlyniadau yma'n adlewyrchu'r gwelliant sylweddol mewn deilliannau ar ôl darparu cymorth. Mae hynny'n awgrymu bod RhCT yn cyflawni ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yn y cyfnod cyn pandemig Covid-19.³

³<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>


Yn ystod cyfnod 2019/20, cyflawnodd RhCT ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer atal digartrefedd, gyda thua 73% o achosion yn cael eu hatal yn llwyddiannus yn RhCT o gymharu â 67% ar draws Cymru gyfan. Roedd cyfran debyg o achosion heb eu hatal, yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru yn ymwneud â'r categorïau deilliant canlynol: cymorth wedi'i wrthod, diffyg cydweithredu, cais wedi'i dynnu'n ôl, colli cyswllt neu resymau eraill.



Ffigur 3: Aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd, Ebrill 2020 i Fawrth 2021.


Yn dilyn y sbardun o ddyletswydd i helpu i sicrhau llety (adran 73), roedd deilliannau RhCT yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru. Yn y cyfnod 2019/20, ymhlith 12,399 deilliant dyletswydd i helpu i sicrhau llety ledled Cymru, arweiniodd 41% at ryddhad llwyddiannus – caiff 69% ei adrodd ar gyfer RhCT.

Mae hi'n bosibl bod hwn yn gysylltiedig â'r ffaith bod cyfran yr aelwydydd gafodd eu hasesu'n ddigartref, ac mae ar y Cyngor ddyletswydd i'w helpu nhw i sicrhau cartref yn RhCT, ymhlith y nifer isaf yng Nghymru, sef 68.28 fesul 10,000 o aelwydydd. Mewn cymhariaeth, mae'r gyfradd isaf o aelwydydd yng Nghymru yng Ngheredigion (58.03 fesul 10,000), ac mae'r gyfradd uchaf yng Nghymru yn yr Awdurdod Lleol cyfagos, Merthyr Tudful, sef 166.47 fesul 10,000 o aelwydydd.



Ffigur 4: Aelwydydd sydd wedi'u hasesu'n ddigartref ac y mae dyletswydd ar y Cyngor i'w helpu i sicrhau llety, cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd, Ebrill 2020 i Fawrth 2021.

Mae deilliannau'r ddyletswydd derfynol ychydig yn well yn RhCT gydag 81% wedi'u rhyddhau'n gadarnhaol, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 78%. Dydy cyfran debyg, o tua 20%, yn RhCT a Chymru ddim yn cael eu rhyddhau'n gadarnhaol oherwydd y categorïau deilliant WHO12 canlynol: cymorth wedi'i wrthod, diffyg cydweithredu, cais wedi'i dynnu'n ôl, colli cyswllt neu resymau eraill.



Ffigur 5: Aelwydydd sydd wedi'u haesu'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol, cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd, Ebrill 2020 i Fawrth 2021.

Effaith Covid-19

Crynodeb

- Mae COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar nifer y bobl agored i niwed sydd â'r hawl i ddyletswydd ddigartrefedd, ac ar yr ystod o anghenion cymhleth sydd angen cymorth.
- Mae hyn wedi arwain at gynydd sydyn yn nifer y bobl mewn llety dros dro a gostyngiad yn y llety sydd ar gael yn y sector rhentu preifat.
- Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaethau ategol megis y gwasanaeth Tai, lechyd a'r Gwasanaeth Prawf i gydweithio a rhannu data'n well.

Arweiniodd pandemig COVID-19 at nifer sylweddol o bobl yn cael eu lleoli mewn llety dros dro ers mis Mawrth 2020. Dydy'r sefyllfa ddim wedi newid o ran y newid yn y Ddeddfwriaeth Ddigartrefedd sy'n golygu bod gan bawb sy'n cyflwyno 'angen blaenoriaethol' (mae hwn hefyd yn cael ei alw'n bolisi 'Pawb i Mewn').

Mae gan y rhan fwyaf o'r unigolion sydd fel arfer yn mynd i lety brys nifer o anghenion ac mae angen ystod eang o wasanaethau cymorth arnyn nhw. Roedd yr wybodaeth gafodd ei darparu i Communities4Change Cymru⁴ yn nodi sut roedd effaith COVID-19 wedi

⁴ Cais Communnities4Change Wales. Medi 2021

adlewyrchu a gwaethygu anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes. Mae ei effeithiau ar boblogaeth RhCT wedi bod yn enbyd, o ystyried cyfraddau diweithdra uwch na'r cyfartaledd, cyflyrau hir dymor, anabledd, ac ansicrwydd ariannol. Mae tai, yn enwedig tai â gormod o bobl yn byw ynddyn nhw, wedi chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo'r feirws, a deilliannau i'r rheiny cafodd eu heintio.⁶ Mae hynny wedi creu nifer o heriau:

- Mae rhoi cymorth digartrefedd i unigolion yn parhau i fod yn her. Gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd sylweddol mewn ceisiadau digartrefedd.
- Roedd gan gyfran fawr o unigolion a gyflwynodd yn ddigartref, amrywiaeth o anghenion iechyd corfforol a meddyliol cymhleth, (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau) a all fod yn rhwystr i gynnal tenantiaeth yn y tymor hir.
- Mae amodau gwael y tai wedi'u nodi dro ar ôl tro mewn asesiadau anghenion yn ffactor sy'n sbarduno aildderbynion a chyflwyniadau i wasanaethau iechyd meddwl, gyda thenantiaeth yn chwalu a dyraniad tai amhriodol yn cael eu nodi'n ffactorau allweddol.⁷
- Mae yna broblem o ran gweledd: mae partneriaid ar y ddwy ochr i'r maes tai ac iechyd yn gweithio'n gymharol ynysig oddi wrth ei gilydd ac mae'n anodd cael ymdeimlad o ystod ac ehangder y gweithgaredd sydd ar waith i leihau anghydraddoldebau.
- Yn ychwanegol at hynny, ac er gwaethaf sawl asesiad manwl o anghenion a chydweithio agos rhwng partneriaid lleol, mae consensws bod y systemau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau megis y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a Chynghorau yn annigonol ac yn dameidiog, gan rwystro prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau.⁷ Er bod gan bob asiantaeth ddata sylweddol, mae mynediad at wybodaeth o'r fath a phrosesau rhannu gwybodaeth yn anghyson, gan ei gwneud hi'n heriol trosi data o'r fath yn gamau gweithredu ar y cyd.

Wrth ymgysylltu â staff y Cyngor a rhanddeiliaid, fe ddaeth y ffordd mae'r pandemig wedi newid y dirwedd yn llwyr i'r amlwg:

- Cynnydd cyflym yn nifer y bobl mewn llety dros dro.
- Lefelau uwch o anghenion ar gyfer pobl sy'n cael eu hatgyfeirio i lety â chymorth a chymorth fel y bo'r angen.
- Mwy o achosion o anghenion sy'n gysylltiedig fel iechyd meddwl a chamddefnyddio

⁵ Bambra C, Riordan R, Ford J, Matthews F. **The COVID-19 pandemic and health inequalities.** *Journal of Epidemiology & Community Health* 2020; 74:964-968. Ar gael ar: <https://jech.bmj.com/content/74/11/964> [Cyrchwyd 7 Medi 2021].

⁶ Abbs I, Marshall L. 2020. **Emerging evidence on COVID-19's impact on health and health inequalities linked to housing.** Ar gael ar: <https://www.health.org.uk/news-and-comment/blogs/emerging-evidence-on-covid-19s-impact-on-health-and-health-inequalities> [Cyrchwyd 7 Medi 2021].

⁷ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf: 2018. **Asesiad Poblogaeth Cwm Taf** Ar gael ar: <http://www.eincwmtaf.cymru/cwm-taf-population-assessment> [Cyrchwyd 7 Medi 2021].

sylweddau.

- Mae heriau o ran symud pobl o lety dros dro a llety â chymorth yn cael eu heffeithio'n arbennig gan y gostyngiad yn y mynediad i'r sector rhentu preifat.
- Er bod enghreifftiau o gydweithio da gyda phartneriaid system fel y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cychwynnol, mae hyn wedi lleihau. Disgrifiodd rhanddeiliaid heriau sylweddol o ran cleientiaid yn bodloni mewnbwn proffesiynol i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn wedi golygu bod y Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartrefedd wedi gorfod reoli'r anghenion hynny.
- Soniodd rhanddeiliaid am yr her o gael gafael ar ddata gan bartneriaid system fel y Gwasanaeth Iechyd, a bod hynny'n cyfyngu ar effeithiolrwydd cymorth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Adolygiad Cyflym o Wasanaethau Digartref

Cafodd adolygiad cyflym o wasanaethau digartrefedd ei gynnal gan Adran Strategaeth Tai'r Cyngor ym mis Awst 2021⁸. Diben yr adolygiad oedd edrych yn fanwl i drefniadau cymorth presennol digartrefedd a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau a fyddai'n atal digartrefedd a'i wneud yn brin, yn ddatrysiaid byr-dymor, ac yn un sydd ddim yn cael ei ailadrodd. Mae'r canlynol yn argymhellion allweddol o'r adolygiad hwnnw, gan gynnwys diweddariad ar gynnydd.

Atal Digartrefedd

Tai yn Gyntaf	<p>Dylai'r Cyngor ddatblygu Llawlyfr Gweithredol Prosiectau Tai yn Gyntaf ar gyfer staff, sy'n nodi'r broses, y gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau allweddol a ddisgwyllir gan sefydliadau.</p> <p>Diweddariad: Mae Swyddog Prosiect wedi'i benodi ac yn ei swydd. Bydd y swyddog yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith Tai yn Gyntaf gan gynnwys trefniadau gweithredol.</p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu'r Prosiect Ymateb Cyflym Tai yn Gyntaf ymhellach i ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw defnyddwyr y gwasanaeth wedi derbyn ymateb i adborth defnyddwyr y gwasanaeth.</p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu adnoddau staffio a chapasiti ar gyfer Prosiectau Tai yn Gyntaf ymhellach, gan sicrhau bod digon o staff i roi cymorth diogel i ddefnyddwyr risg uchel y gwasanaeth.</p> <p>Diweddariad: Mae 5 aelod o staff prosiect ychwanegol wedi'u cyflogi a bellach yn eu swyddi i gynorthwyo'r garfan Tai yn Gyntaf. Mae hyn yn</p>
----------------------	--

⁸ Adolygiad Digartrefedd Cyflym RhCT Awst 2021

	<p>cynnwys rheolwr prosiect sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau gweithredu a staffio o ddydd i ddydd.</p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu'r broses atgyfeirio Prosiectau Tai yn Gyntaf ymhellach i gynnwys Gweithwyr Prosiect yn y broses. Mae'r Gweithwyr Prosiect yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr y gwasanaeth, gallai eu mewnbwn fod o fudd i'r broses atgyfeirio, gan helpu i wneud gwelliannau pellach.</p> <p>Diweddariad: Fel uchod, bydd y swyddog prosiect newydd yn adolygu'r ffurflen atgyfeirio a'r llwybr atgyfeirio yn rhan o'r rôl newydd. Yn ogystal â hynny, bydd cyfarfodydd amlasiantaeth gweithredol yn cael eu cynnal bob pythefnos, ac yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr y Garfan Ceisio Cartref. Bydd gweithwyr prosiect Tai yn Gyntaf yn dod i'r cyfarfodydd yma.</p> <p>Dylai'r Cyngor barhau i reoli'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol gan ganolbwyntio ar flaenoriaethu cynnydd yn y cyflenwad o letyau parhaol 1 ystafell wely sydd dirfawr ei angen.</p> <p>Dylai'r Cyngor barhau i weithio'n agos gyda landlordiaid lleol trwy ddulliau megis y fforwm landlordiaid i gael llety addas i roi cymorth ag anghenion prosiectau a defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Dylai'r cyngor barhau i sicrhau cyllid ar gyfer unedau dros dro i bobl ifainc, er mwyn atal digartrefedd a rhoi'r sgiliau iddyn nhw i gynnal tenantiaeth barhaol.</p> <p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod cymorth dwys gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (gweithwyr cymorth) yn hanfodol, fel bod modd i unigolion â phroblemau iechyd meddwl gynnal tenantiaeth.</p>
<p>Polisi Dyrannu</p>	<p>Dylai'r Cyngor adolygu cynnwys gwefan CeisioCartref (Homefinder) ymhellach gan sicrhau bod y wefan yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch. Dylai Swyddog penodedig fod yn gyfrifol am ddiweddaru ymarferoldeb y wefan yn ogystal â sicrhau bod arolygon boddhad cwsmeriaid ar gael er mwyn casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad pellach o Gynllun Dyrannu RhCT i ymgorffori unrhyw newidiadau sydd wedi'u mabwysiadu yn ystod 2020/21 a sicrhau bod y Cynllun yn parhau i roi blaenoriaeth gyffredinol i'r categorïau ffafriaeth resymol.</p>

Sicrhau Llety

<p>Polisi Gosod Lleol</p>	<p>Dylai'r Cyngor barhau i gefnogi'r gymeradwyaeth ar gyfer Polisiau Gosod Lleol, ar yr amod bod tystiolaeth gadarn yn cael ei darparu gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn gefn i'r angen am y polisi.</p>
---------------------------	--

<p>Llety Mewn Argyfwng</p>	<p>Dylai'r Cyngor gyflogi Swyddog Tai Pobl Ifainc i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifainc o'u hopsiynau tai, ble i fynd am help a chymorth a darparu cyngor ar y cymorth sydd ar gael.</p> <p>Diweddariad: Yn ddiweddar rydyn ni wedi caniatáu secondiad i Swyddog Cymorth Tai i fod yn bwynt cyswllt sengl ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal. Mae sicrhau gweithwyr ymroddedig yn gallu bod yn heriol oherwydd diffyg arbenigedd a'r am gyflenwi ar gyfer gwyliau blynyddol ac absenoldeb salwch.</p> <p>Dylai fod gan y Cyngor drefniadau cofnodi data a dadansoddiad mwy effeithlon o resymau pam bod tenantiaid yn symud ymlaen, i ganfod a yw tenantiaethau/ffurflenni teulu wedi'u cynnal. Dydy'r rhesymau ddim wedi'u cofnodi ar gyfer achosion symud ymlaen, a gallai hynny atal dadansoddiad llawn o effeithiolrwydd y cynllun.</p>
<p>Hostel Stryd y Felin</p>	<p>Dylai'r Cyngor ail-gomisiynu ac ail-leoli'r ddarpariaeth Hostel yn Stryd y Felin a datblygu Canolfan Asesu newydd. Dylai'r Ganolfan newydd gynnwys 24 o unedau, a fyddai'n dyblu capasiti'r ddarpariaeth bresennol. Byddai hynny'n cymryd y straen oddi ar fusnesau Gwely a Brecwast ar gyfer llety dros dro, gan arwain at arbedion ariannol i'r Cyngor yn ogystal â darparu unedau pwrpasol i unigolion a chymorth ar y safle.</p>
<p>Cysgu Allan</p>	<p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod dewisiadau brys a thros dro ar gael i bobl ddigartref sy'n cysgu allan gyda'r capasiti sydd ei angen, a digon o ddarpariaeth amrywiol i sicrhau'r effaith a'r urddas mwyaf posibl.</p>
<p>Prosiect "Paratoi a Symud Ymlaen".</p>	<p>Dylai'r Cyngor weithio'n agos gyda'r darparwyr gwasanaeth yn 'Paratoi a Symud Ymlaen' (GRAMO) i nodi'r sawl sydd ddim yn y system gymorth, a sicrhau bod ganddyn nhw weithiwr cymorth hyd nes iddyn nhw ddod o hyd i denantiaeth. Dylid gwneud cynlluniau hefyd i roi cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth i ddod ynghyd mewn amgylchedd ystafell ddosbarth (wrth gadw pellter cymdeithasol), cyn gynted â phosibl i helpu gydag ymgysylltiad a phresenoldeb.</p>

Darparu cymorth

<p>Gwasanaethau cyfryngu</p>	<p>Dylai fod gan y Cyngor system casglu data mwy effeithlon ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifainc sy'n benodol i ystodau oedran, y niferoedd sy'n cael cymorth a'r deilliannau a gyflawnwyd.</p>
<p>Rhaglen MIND Resilience</p>	<p>Dylai'r Cyngor cynnig hyfforddiant i staff mewn hosteli sy'n darparu'r prosiect MIND Resilience i oresgyn unrhyw amhariadau pellach i'r gwasanaeth oherwydd y pandemig.</p>

Gweithiwr digartrefedd ieuencid a gweithiwr CAB ymroddedig	Dylai'r Cyngor adolygu prosiect Atal Digartrefedd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ymhellach gan fod tystiolaeth yn awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn amgylchiadau anodd.
Lleoliad Carfanau Datrysiadau Tai, Canfod Tai a Chymorth i Bobl a Chyfleoedd Hyfforddi i Staff	Dylai fod gan y Cyngor un lleoliad ar gyfer cyfuno gofod swyddfa gyda darpariaeth hostel. Dylid defnyddio'r gofod swyddfa ar gyfer y Ganolfan Cyngor Tai (CCT), y garfan Ceisio Cartref a Gwasanaethau Cymorth i Bobl a cheisio lleihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar aelodau'r cyhoedd.

Deilliannau ar gyfer Pob Dyletswydd


Mae'r adran yma'n crynhoi cyflawniad y Cyngor yn erbyn dyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014 yn benodol Adran 66, y ddyletswydd i atal ac Adran 73, y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety (am 56 diwrnod).

Crynodeb

- Mae aelwydydd un person yn gyson yn cyfri tuag at y mwyafrif o achosion lle mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth i'r rhai sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.
- Caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yn y lleoliadau a wnaed mewn llety dros dro rhwng Ebrill 2020 a 2021. Mae ymgeiswyr gwrywaidd sengl yn cyfri am fwy o leoliadau mewn llety dros dro na'r holl fathau eraill o aelwydydd gyda'i gilydd, gydag ymgeiswyr benywaidd sengl yn cyfri am yr ail nifer uchaf o leoliadau.
- Daw'r gyfran fwyaf o geisiadau sy'n cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan ddynion sengl hefyd. Mae cyfran yr ymgeiswyr gwrywaidd sengl wedi codi o 46% o'r cyfanswm yn 2017 i 58% yn 2021.
- Tai cymdeithasol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r dyraniadau tai lle'r oedd dyletswydd.
- Roedd 40% o'r bobl gafodd eu lleoli mewn llety dros dro wedi'u lleoli sawl gwaith, gan arwain at gyfanswm o 852 o leoliadau yn 2020/2021 (ar ddiwedd mis Mawrth), sy'n cynrychioli cynnydd o bron i 257 o leoliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 595 yn 2019/20.


Math o aelwyd

Cyn 2021, roedd aelwydydd un person yn gyson yn cyfri tuag at y mwyafrif o achosion lle'r oedd y Cyngor wedi rhoi cymorth i'r rhai sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae cyfanswm a chyfran yr aelwydydd aml-berson sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor wedi aros yn gyson, gan gyfrif am gyfartaledd o 37% o gyfanswm yr aelwydydd a gafodd gymorth rhwng 2015 a 2020.



Ffigur 6: Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth yn ôl y math o aelwyd 2015-20


Mae cyfran uchel yr aelwydydd un person hefyd yn cael ei hadlewyrchu mewn lleoliadau a wnaed mewn llety dros dro rhwng Ebrill 2020 a 2021. Mae ymgeiswyr gwrywaidd sengl yn cyfri am fwy o leoliadau mewn llety dros dro na'r holl fathau eraill o aelwydydd gyda'i gilydd, gydag ymgeiswyr benywaidd sengl yn cyfri am yr ail nifer uchaf o leoliadau.



Ffigur 7: Cyfanswm yr achosion yn ôl math o aelwyd ar 31/03/2021

Yn gyson, ymgeiswyr gwrywaidd sengl yw'r grŵp mwyaf o ymgeiswyr, gan gyfrif am tua hanner cyfanswm y ceisiadau yn 2020 a 2021. Mae'n ymddangos fel petai'r pandemig wedi

gwaethygu'r duedd. Y grwpiau mwyaf nesaf yw aelwydydd un rhiant gyda phlentyn (plant) dibynnol ac ymgeiswyr benywaidd sengl.




Ffigur 8: Nifer yr ymgeiswyr yn ôl math o aelwyd (Ionawr 2017 – Awst 2021)

Mae ymgeiswyr gwrywaidd sengl hefyd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o geisiadau sy'n cael eu gwneud gan bobl sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfran yr ymgeiswyr gwrywaidd sengl wedi codi o 46% o'r cyfanswm yn 2017 i 58% yn 2021 (hyd at fis Awst). Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran yr ymgeiswyr sy'n ferched sengl wedi gostwng o 36% o'r cyfanswm yn 2017 i 25% yn 2021 (hyd at fis Awst).


Math o aelwyd	2017	2018	2019	2020	2021 (o fis Ionawr hyd at fis Awst)
Aelwyd â chwpwl a phlentyn/plant dibynnol	0	1	0	0	1
Aelwyd â rhiant sengl a phlant dibynnol – ymgeisydd gwrywaidd		0	1	1	0
Aelwyd â rhiant sengl a phlant dibynnol – ymgeisydd benywaidd	2	5	6	2	0
Aelwyd person sengl – ymgeisydd gwrywaidd		5	11	10	14

Aelwyd person sengl – ymgeisydd benywaidd	4	5	7	8	6	
Pob grŵp cartref arall		0	2	1	7	3
Cyfanswm blynyddol	11	25	25	30	24	

Tabl 2: Ymgeiswyr sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ôl math o aelwyd



Ffigur 9: Rheswm dros ddigartrefedd neu fygythiad o ddigartrefedd 2020-21



Ffigur 10: WHO12 Angen blaenoriaethol 2020-21

Deilliannau Cyflwyniadau

Mae data'n dangos, lle y caiff cymorth ei ddarparu, bod deilliannau'n gadarnhaol ar y cyfan, ar gyfer dyletswydd i atal a helpu i sicrhau dyletswydd derfynol. Bu gwelliant sylweddol mewn deilliannau yn dilyn darpariaeth cymorth ar gyfer atal a lleddfu ers 2015. Serch


hynny, dydy effaith pandemig Covid-19, yn enwedig ar nifer y bobl sy'n cyflwyno ag anghenion mwy cymhleth, ddim wedi dod i'r amlwg yn llawn eto ac felly mae'n debygol nad oes adlewyrchiad teg o'r effaith yn y data isod.

Dyraniad Tai

Mae ceisiadau a dyraniadau tai yn cael eu rheoli trwy'r Gofrestr Tai Cyffredin CeisioCartref a'r system Dyraniadau CeisioCartref (Homefinder). Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf a'i bartneriaid tai – Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf, Hafod, Newydd, Trivallis, Rhondda a Chymdeithasau Tai Wales & West i gyd wedi ymuno â'r system.

Gostyngodd cyfanswm nifer y dyraniadau tai rhwng 2019/20 a 2020/21 o 413 i 317. Serch hynny, bu cynnydd sylweddol yn nifer a chyfran ymgeiswyr testun dyletswydd y dyrannwyd tŷ iddyn nhw. Roedd nifer yr ymgeiswyr y dyrannwyd tai iddyn nhw'n amodol ar ddyletswydd derfynol, yn cyfrif am bron i hanner cyfanswm y dyraniadau yn 2020/21, ar ôl cyfrif am ddegfed ran o gyfanswm y dyraniadau yn 2019/21 yn flaenorol.


Mae'r gostyngiad yn nifer y dyraniadau tai i'r digartref yn bennaf oherwydd gostyngiad sydyn yn nifer yr ymgeiswyr sy'n destun dyletswydd i atal, sef gostyngiad o 75% rhwng 2019/20 a 2020/21. Gostyngodd nifer a chyfran yr ymgeiswyr a oedd yn destun dyletswydd i sicrhau (56 diwrnod) flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd, er bod hynny i raddau llai, gan barhau i fod yr ail grŵp mwyaf yn ôl dyletswydd.



Ffigur 11: Dyraniadau tai digartrefedd CeisioCartref trwy ddyletswydd

Tai cymdeithasol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r dyraniadau tai (lle mae dyletswydd), gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn darparu 92 o unedau llety rhwng Ionawr ac Awst 2021, a'r Awdurdod Lleol yn darparu 23 o unedau'n uniongyrchol. Y tu hwnt i dai cymdeithasol, mae llety gyda ffrindiau a pherthnasau a llety â chymorth yn ddau ganlyniad tebygol arall, gyda thua 10% yn ymgartrefu mewn llety yn y sector rhentu preifat.

Yn ystod hanner cyntaf 2021 dim ond tri achos o ddigartrefedd a gafodd eu hatal gyda'r aelwyd yn gallu aros yn y cartref presennol, gan gyfrif am lai nag 1% o achosion. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys y gwaharddiad troi allan a oedd ar waith tan ddechrau mis Gorffennaf 2021, y cynnydd mewn lles ac o bosibl llai o achosion o gyfryngu gyda phobl lai tebygol o ofyn i aelodau eraill o'r teulu neu berthnasau agos i adael yn ystod pandemig COVID-19 parhaus.




Ffigur 12: Digartrefedd wedi'i atal neu'i leddfu, lle mae dyletswydd, cymorth i'r aelwyd i gael llety arall, yn ôl math o lety (Ionawr i Awst 2021)

Llety Dros Dro

Cafodd 524 o unigolion, teuluoedd a grwpiau eu lleoli mewn llety dros dro yn 2020/2021 (hyd at ddiwedd mis Mawrth). Cafodd 40% o'r 524 eu gosod mewn llety dros dro sawl gwaith, gan arwain at gyfanswm o 852 o leoliadau yn 2020/2021 (hyd at ddiwedd mis Mawrth). Mae 852 o leoliadau yn cynrychioli cynnydd o bron i 257 o leoliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 595 yn 2019/20.


Nodwyd bron i hanner yr holl achosion yn rhai heb unrhyw angen blaenoriaethol ymddangosiadol. Mae aelwydydd sy'n cynnwys aelod agored i niwed oherwydd 'salwch meddwl/anabledd dysgu' yn cynrychioli'r ail grŵp mwyaf, ac mae anabledd corfforol yn cynrychioli'r trydydd grŵp mwyaf.



Ffigur 13: Cyfanswm nifer yr achosion sydd wedi cael llety dros dro yn ôl angen blaenoriaethol ers 2020-21

Dim dyletswydd


Mae nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth gan RhCT gyda deilliant terfynol o ddim dyletswydd wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, o ran nifer ac o ran cyfran y cyfanswm, gan ostwng o 456 o aelwydydd yn 2015/16 i 174 yn 2019/20.



Ffigur 14: Nifer y cartrefi a gafodd gymorth trwy ddyletswydd

Deilliannau yn dilyn darpariaeth cymorth atal

Mae cyfanswm nifer yr achosion llwyddiannus o atal digartrefedd yn dilyn sbarduno'r ddyletswydd i atal (A.66) wedi codi (er bod y patrwm wedi mynd i fyny ac i lawr rhyw ychydig), rhwng 2015 a 2020. Ataliadau aflwyddiannus lle nad yw'r canlynol wedi digwydd: cymorth wedi'i wrthod, diffyg cydweithredu, cais wedi'i dynnu'n ôl, colli cyswllt neu resymau eraill, wedi gostwng yn sylweddol. Hanerodd nifer a chyfran yr aelwydydd sy'n cael cymorth atal ac sy'n arwain at ddigartrefedd a mwy rhwng 2015/16 a 2016/17 ac maen nhw wedi aros yn gyson isel ers hynny.



Ffigur 15: Deilliannau darpariaeth cymorth atal


Yn 2019/20 gostyngodd cyfanswm y bobl a oedd yn derbyn cymorth atal. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu effeithiau cychwynnol pandemig Covid-19, yn benodol y gostyngiad yn yr achosion o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd (yn y 56 diwrnod nesaf).

Deilliannau'n dilyn y sbardun y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety

Erbyn hyn, cymorth llwyddiannus yw'r deilliant mwyaf tebygol o bell ffordd ar ôl sbarduno'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety.


Ar hyn o bryd, mae deilliannau'r ddarpariaeth cymorth gan RhCT wedi gwella'n aruthrol ers 2015/16 pan oedd deilliannau cymorth aflwyddiannus yn fwy na deilliannau cymorth llwyddiannus. Yn wir, yn

2019/20 roedd deg gwaith yn fwy o aelwydydd yn derbyn cymorth yn dilyn dyletswydd i helpu i sicrhau llety, gan arwain at fwy o gymorth llwyddiannus nac aflwyddiannus.



Ffigur 16: Deilliannau aelwydydd digartref cymwys sy'n destun dyletswydd help i sicrhau llety (Adran 73)

Mae deilliannau dyletswydd derfynol yn dilyn patrwm tebyg, gyda nifer cynyddol o aelwydydd yn cael eu rhyddhau'n gadarnhaol o'r ddyletswydd derfynol. Serch hynny, mae cyfran yr aelwydydd digartref ag anghenion blaenoriaethol cymwys sydd wedi profi rhyddhad aflwyddiannus, hefyd wedi cynyddu, er ar gyfradd arafach, a bellach yn cyfrif am bron i un rhan o bump o holl ganlyniadau'r ddyletswydd derfynol.



Ffigur 17: Deilliannau'r sawl sy'n gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac ag angen blaenoriaethol – dyletswydd derfynol (Adran 75)

Cipolwg ar yr Anghenion Cymorth Tai Mwyaf Sylweddol

Mae'r adran yma'n dwyn ynghyd y data anghenion o'r Aseiad Poblogaeth leol, data atgyfeirio ac adborth rhanddeiliaid ar gyfer pob maes angen a nodwyd yn yr aseiad, sy'n cyd-fynd ag anghenion pobl ddigartref a phobl sy'n cael cymorth y Grant Cymorth Tai.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn ynghyd holl elfennau'r gwasanaethau gofal a chymorth a'r ffyrdd maen nhw'n cael eu darparu. Rhoddodd y Ddeddf 'ddyletswydd' ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'u partneriaid, i gynnal aseiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth. Cyhoeddwyd yr aseiad poblogaeth yn 2017 ac mae'n cael ei gynnal eto ar hyn o bryd yn unol â'r cylch statudol.

Iechyd Meddwl

Crynodeb

- Mae'r nifer o achosion sy'n cael eu hadrodd o gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a llesiant gwael yng Nghymru ar eu mwyaf yn Rhondda Cynon Taf.

- **Y rheswm mwyaf cyffredin dros angen blaenoriaethol am dai yn RhCT yw iechyd meddwl.**
- **Dydy anghenion tai sylweddol ddim wedi eu diwallu ar gyfer oedolion â phroblemau iechyd meddwl. Problemau tai yn aml sy'n cael eu nodi'n rheswm dros dderbyn neu aildderbyn pobl megis cleifion preswyl i'r system gofal iechyd meddwl.**
- **Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety wedi'i rentu ac, yn aml, maen nhw'n nodi mai'r brif reswm dros fethiant eu tenantiaeth yw eu salwch meddwl.**
- **Pan mae nifer o asiantaethau'n ymwneud ag achos, mae trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol er mwyn bod yr unigolion yn cael y gofal gorau posibl. Mae angen gwella'r trefniadau yma.**
- **Ar ôl gweld cynnydd blynyddol yn nifer atgyfeiriadau iechyd meddwl y Grant Cymorth Tai, daeth llai o atgyfeiriadau i law'r Cyngor yn 2020-21. Serch hynny, rhagwelir y bydd atgyfeiriadau'n codi'n sylweddol yn dilyn pandemig COVID-19.**
- **Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion CBS RhCT yn defnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai i ddarparu prosiectau llety arbenigol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Does dim modd dod i gasgliadau ynghlych effeithiolrwydd gwasanaethau sydd wedi'u hariannu gan y Grant Cymorth Tai gan fod dim digon o ddata ar ddeilliannau cymorth.**
- **Mae mynediad at wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd wedi dod yn fwyfwy heriol ers y pandemig.**

Mae gan ardal Cwm Taf y cyfraddau uchaf yng Nghymru o ran salwch meddwl a llesiant gwael.

Mae'r darlun heriol o iechyd meddwl a lles oedolion yng Nghwm Taf i'w weld yn y data diweddaraf sydd ar gael ar adeg yr asesiad.⁹

Yn achos oedolion, mae anghenion tai sylweddol heb eu diwallu ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl. Cafodd problemau tai eu nodi sawl gwaith yn rheswm dros dderbyn neu aildderbyn unigolion i ofal iechyd meddwl ar gyfer cleifion preswyl. Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety wedi'i rentu ac, yn aml yn nodi mai'r prif reswm dros fethiant eu tenantiaeth yw eu salwch. Oherwydd argaeledd cyfyngedig tai, roedden nhw wedi cael cynnig llety mewn ardaloedd nad oedd yn llesol i'w sefyllfa e.e. ardaloedd â phroblemau cyffuriau/ymddygiad gwrthgymdeithasol hysbys. Roedd yr amgylchiadau yma'n effeithio ar eu gallu i gynnal iechyd meddwl da. Yn aml, byddai

⁹ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf Mawrth 2017

unigolion â thenantiaeth yn wynebu cael eu troi allan oni bai bod cymorth priodol o ran materion tenantiaeth yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau gofal.

Mae gan yr asiantaethau amrywiol sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i rywun â phroblemau iechyd meddwl eu systemau casglu data eu hunain, sy'n dibynnu ar eu cyllid, eu hatebolrwydd a'u gofynion llywodraethu. Serch hynny, roedd yn aml yn aneglur sut roedd data'n cael ei ddefnyddio i lywio darpariaeth y gwasanaethau hynny y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl wedi'u nodi – a dyna pam y bylchau yn y gwasanaethau ataliol. Mae trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol er mwyn bod unigolion yn cael y gofal gorau posibl. Dylid gwella trefniadau rhannu data o'r fath ar draws asiantaethau a'u halinio â fframweithiau cenedlaethol cytûn er mwyn cynllunio gwasanaethau'n well yn y dyfodol. Cadarnhawyd hyn gan asesiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a oedd yn nodi ei bod yn parhau i fod yn her sylweddol.

Roedd yr Adolygiad Tai Cyflym diweddar yn nodi mai iechyd meddwl oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros angen blaenoriaethol am dai yn RhCT. O ganlyniad i'r cynnydd yma mewn cymhlethdod, roedd lleoliadau pobl mewn llety â chymorth yn dod i ben trwy gael eu troi allan oherwydd yr heriau o ran cydymffurfio â gofynion tenantiaeth.¹⁰

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd o 11% o flwyddyn i flwyddyn mewn atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth iechyd meddwl y GCT. Er y bu atgyfeiriadau drwy'r Un Pwynt Mynediad yn is yn 2020/21, mae ffigurau cenedlaethol a gafwyd gan Iechyd Meddwl Cymru wedi dangos y canlynol:

- Cynnydd o 183% yn y ceisiadau am wybodaeth am orbryder
- Cynnydd o 188% yn y ceisiadau am wybodaeth am hunanladdiad
- Cynnydd o 229% yn y ceisiadau am wybodaeth am hunan-niweidio

Roedd gwybodaeth gan rhanddeiliaid yn nodi, er bod y cyfyngiadau symud wedi galluogi pobl i gael rheolaeth well dros eu pryderon ynghylch bod yn y gymuned, eu bod nhw wedi gohirio'r angen i fynd i'r afael â'u materion sylfaenol. Rhagwelir y bydd galw sylweddol 'wedi'i gronni' mewn atgyfeiriadau o 2021/22 a thu hwnt.

Ar ddyddiad yr asesiad anghenion yma, roedd 105 o unigolion â heriau yn ymwneud ag iechyd meddwl a fyddai angen gwahanol fathau o lety ar ffurf lleoliadau iechyd meddwl arbenigol trwy Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n cyflwyno cyfle i gamu i lawr ynghyd â'r rhai sy'n aros am lety. Does dim digon o ddata ar y deilliannau cymorth a gyflawnwyd gan y gwasanaethau ar gyfer lleoliadau iechyd meddwl arbenigol a ariennir gan GCT i allu dod i gasgliadau ar ba mor effeithiol ydyn nhw.

Mae data deilliannau yn dangos bod cymhlethdod o ran anghenion iechyd meddwl wedi cynyddu mewn gwasanaethau llety â chymorth.

Dydy'r fframwaith deilliannau presennol ddim yn rhoi digon o fewnwelediad i ddod i gasgliadau ar yr hyn sy'n effeithiol o ran darparu llety â chymorth neu gymorth fel y bo angen drwy'r GCT.

Roedd ymchwil a gynhaliwyd yn 2020 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i asesu anghenion iechyd pobl ddigartref yn nodi bod pobl ddigartref yn ystyried bod cael mynediad i

¹⁰ Adolygiad Ailgartrefu Cyflym, Awst 2021

gymorth yn anodd i'r rheiny sydd ddim yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal iechyd meddwl arbenigol/eilaidd, ac sydd â symptomau sy'n cael eu hystyried yn rai sydd y tu allan i gwmpas gwasanaethau wedi'u hanelu at reoli problemau iechyd meddwl cyffredin.

Yn aml doedd gan ofal sylfaenol, lle mae'r rhan fwyaf o bobl â chyflyrau iechyd meddwl cyffredin yn cael eu trin, ddim llawer o allu i gefnogi'r rhai sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Roedd deall y llwybrau amrywiol a chymhleth i wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd yn ddryslyd i staff cymorth tai a phobl ddigartref ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – yn enwedig o ran sut roedd meddygon teulu, Carfanau Iechyd Meddwl yn y Gymuned, Carfanau Argyfwng a charfanau arbenigol digartrefedd a gweithwyr meddygol proffesiynol mewn ysbytai yn rhyngweithio â'i gilydd.

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylid cynnull fforwm sy'n bodoli eisoes, neu grŵp newydd, i oruchwylio'r gwaith o roi'r camau strategol sy'n codi o'r adroddiad ar waith.¹¹

Mae adborth rhanddeiliaid yn nodi bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers y pandemig, ac mae hyd yn oed yn fwy heriol i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd.

Camddefnyddio Sylweddau

Penawdau

Mae gan RCT niferoedd uchel o bobl â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau o'i gymharu â gweddill Cymru.

Mae nifer fawr o bobl sydd angen gwasanaethau'r GCT ac sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar yr un pryd. Mae'n anodd iawn i wasanaethau cymorth i gael gwasanaethau iechyd meddwl a thrin camddefnyddio sylweddau y GIG i ymyrryd yn y sefyllfa oedd yma.

Mae gwasanaeth rhanbarthol arbenigol newydd bellach yn ei le, ond mae'n rhy gynnar i'w werthuso'n llawn.

Cwm Taf sydd â'r cyfraddau uchaf yng Nghymru o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae data o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau yn dangos yr angen parhaus am wasanaethau ar draws ardal Cwm Taf. Daeth tua 3,000 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i law bob blwyddyn yn y cyfnod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2016.¹²

Mae modd i gamddefnyddio sylweddau effeithio ar bobl waeth beth fo'u hoedran, cefndir neu darddiad ethnig. Mae modd iddo hefyd arwain at broblemau sylweddol ym mywydau pobl. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn gyfrifol am gyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru yn ardal RhCT.

Mynediad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau

¹¹ Asesiad cyflym o anghenion iechyd pobl ddigartref ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Mehefin 2020

¹² Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, mis Mawrth 2017

Roedd yr asesiad cyflym o anghenion iechyd pobl a oedd yn ddigartref yn ardal Cwm Taf Morgannwg¹³ yn nodi bod y Garfan Cyffuriau ac Alcohol yn y Gymuned yn darparu gwasanaeth i bobl sy'n cael problemau o ran camddefnyddio sylweddau yn seiliedig ar ddull lleihau niwed sy'n cynnwys gweithio tuag at ymatal ble y bo'n addas; gan ddarparu rhaglenni gofal sy'n cael eu datblygu'n unigol gyda phob cleient. Mae modd i unigolion sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol yn sylweddol gael mynediad i'r gwasanaeth lle mae risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill yn gysylltiedig, a bod tystiolaeth o ymrwymiad i gymryd rhan weithredol yn y rhaglen driniaeth a chydymffurfio â'r safon ymddygiad gofynnol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfweiliadau gyda gweithwyr hostel a oedd yn gweithio gyda'r digartref. Fe nododd y gweithwyr hostel yr heriau canlynol o ran cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer eu tenantiaid:

- Dydy hygyrchedd ddim wedi'i sefydlu ar gyfer natur anhrefnus y cleientiaid yma – pan fydd pobl yn cyrraedd pwynt 'myfyrio' (un o'r camau cynharach yn y cylch newid ymddygiad) mae rhestr aros o chwe wythnos i gael mynediad i wasanaethau
- Mae angen cymorth emosiynol i redeg ochr yn ochr â gwasanaethau trin cyffuriau yn rhan o'r model cyffredinol o baratoi pobl i allu rheoli eu tenantiaethau eu hunain
- Mae angen i apwyntiadau ar gyfer pobl ddigartref fod yn y bore, gan fod modd i'r hosteli eu rheoli'n haws ar yr adeg yma o'r dydd – os ydyn nhw'n mynd allan am y dydd, yna maen nhw wedi dod o hyd i gyffuriau, ac mae'n llawer mwy heriol i'w cefnogi i ymgysylltu gyda gwasanaethau, neu efallai na fyddan nhw'n cael eu derbyn
- Mae modd i droseddwyr yn y system cyfiawnder troseddol gael mynediad mwy uniongyrchol at driniaeth am ddeuddeg mis ac yna cael eu trosglwyddo i wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn y gymuned.
- Dydy mynediad at Fferylliaeth yn y Gymuned ar gyfer presgripsiynau ddim yn broblem er ei fod yn bellter hir ar droed o'r hosteli mewn rhai ardaloedd.
- Mae presgripsiynau wedi'u haddasu ers Covid gyda mynediad cyflymach at asesiad cychwynnol, er mwyn rhoi rhagor o ddiwrnodau o gyffuriau ar yr un pryd i rai pobl, neu i ddosbarthu'r presgripsiwn i'r hostel. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y newidiadau yma wedi gwella'r system.
- Roedd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gafodd ei gynnal ar gyfer yr adroddiad yma yn cadarnhau ei bod yn heriol ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r GIG, yn enwedig gwasanaethau fel adsefydlu a dadwenwyno. Dywedodd darparwyr GCT bod yn rhaid iddyn nhw geisio rheoli'r materion hyn trwy eu cymorth.
- Mae atgyfeiriadau i wasanaethau GCT gyda Chamddefnyddio Sylweddau fel prif angen yn isel, ond mae adborth gan rhanddeiliaid yn nodi ei fod yn dod i'r amlwg fel angen am nifer sylweddol o atgyfeiriadau.

Problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd

¹³ Asesiad cyflym o anghenion iechyd y bobl sy'n ddigartref yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Mehefin 2020

Mae'r term 'diagnosis deuol' fel arfer yn cyfeirio at salwch meddwl yn digwydd ochr yn ochr ag achos o gamddefnyddio sylweddau. Mae'r berthynas rhwng salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn gymhleth ac mae modd iddi newid dros amser. Mae modd i hyn amrywio rhwng pobl ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n cael diagnosis deuol mewn gofal sylfaenol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae diffyg data cenedlaethol ynglŷn â hyn.

O'u cymharu â phobl â phroblem iechyd meddwl yn unig, mae'r rhai â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau:

- yn debygol o wynebu problemau iechyd meddwl mwy difrifol
- yn fwy agored i risg cyflawni hunanladdiad
- yn wynebu materion tai ansefydlog
- yn wynebu trafferthion ariannol
- yn llai tebygol o fanteisio ar ymyriadau triniaeth
- yn fwy tebygol o syrthio trwy'r bwloch rhwng gwasanaethau.¹⁴

Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol – Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mewn ymateb rhanbarthol i'r materion hyn, mae'r Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol – Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau yn wasanaeth allgymorth aml-asiantaeth arbenigol sy'n ymestyn ar draws Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a RhCT. Cafodd y cynnig i ddarparu gwasanaeth allgymorth arbenigol rhanbarthol i unigolion ag anghenion cymhleth sy'n byw mewn hosteli digartrefedd a Phrosiectau Tai yn Gyntaf ei ariannu yn y lle cyntaf gan gyllid Cam 2 a bydd yn cael ei ariannu gan GCT, Iechyd a'r Bwrdd Cynllunio Ardal o 1 Ebrill 2022.

Rhwng 1/04/21 a 31/12/21 derbyniodd y gwasanaeth 61 o atgyfeiriadau gan RhCT ar gyfer unigolion sy'n byw mewn Llety Dros Dro ac sy'n rhan o'r prosiect Tai yn Gyntaf. Aseswyd bod gan 67% o'r unigolion a gafodd eu hatgyfeirio at y prosiect faterion Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n gorgyffwrdd. Roedd 47.2% yn cael eu hystyried yn unigolion risg uchel gyda phroblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau difrifol a 33% ag angen o ran iechyd meddwl.

Roedd 55 o unigolion a gafodd eu hatgyfeirio at y Garfan ar draws y rhanbarth wedi nodi anawsterau wrth ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd.

Rheswm dros atgyfeirio	Nifer yr atgyfeiriadau (%)
Materion Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau yn gorgyffwrdd	66.9%
Anhawster wrth ymgysylltu â gwasanaethau cyffredinol neu wedi disgyn allan o wasanaethau cyffredinol ar gyfer Iechyd Meddwl a/neu Gamddefnyddio Sylweddau	36.2%
Unigolyn Risg Uchel ag iechyd meddwl difrifol / camddefnyddio sylweddau trwm / risg uchel	47.2%

¹⁴ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, Mawrth 2017

oherwydd camddefnyddio sylweddau a meddyginiaeth	
Angen Iechyd Corfforol	27.6%
Dim ond cymorth iechyd meddwl wedi'i geisio	33.1%

Tabl 4: Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol – Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau – rheswm atgyfeirio o fis Rhagfyr 2021 (data Cwm Taf Morgannwg)

Bydd y prosiect yn cael ei werthuso'n llawn yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser mae anghenion camddefnyddio sylweddau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd a GCT yn her sylweddol, yn enwedig ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd.

Cyn-droseddwyr

Crynodeb

- Mae cyn-droseddwyr yn grŵp arwyddocaol ar gyfer carfan ddigartrefedd y Cyngor o ran dod o hyd i lety addas neu leoliad mewn llety dros dro ar ôl gadael y carchar. Mae nifer sylweddol o atgyfeiriadau yn dod i law ar gyfer cymorth yn ymwneud â thai gan y grŵp yma.
- Mae amrywiaeth o brosiectau Tai yn Gyntaf i ddiwallu anghenion cyn-droseddwyr. Serch hynny, mae nifer o heriau o ran diwallu eu hanghenion o ran tai a chymorth.
- Mae nifer o gyfleoedd i adolygu'r llwybr ar gyfer troseddwyr o'r carchar i lety yn y gymuned.

Mae cyn-droseddwyr yn grŵp arwyddocaol ar gyfer carfan ddigartrefedd y Cyngor o ran dod o hyd i lety addas neu leoliad mewn llety dros dro ar ôl gadael y carchar. Mae nifer sylweddol o atgyfeiriadau yn dod i law ar gyfer cymorth yn ymwneud â thai gan y grŵp yma.

Roedd ymgysylltiad rhanddeiliaid â'r gwasanaeth prawf yn nodi fod COVID-19 wedi arwain at y gwasanaeth prawf yn gweithio ar y cyd yn amlach ag awdurdodau lleol yn benodol ynghylch llety, gan fod llifogydd ar ddechrau 2020 wedi rhoi rhagor o bwysau ar ofynion llety yn ardal y Cyngor.

Roedd y Gwasanaeth Prawf yn cydnabod bod 'taith y carcharor' (o'r carchar i'r gwasanaeth prawf i'r Awdurdod Lleol) yn aneglur, bod y canllawiau cyfredol wedi dyddio ac yn cyfeirio at strwythur Prawf blaenorol sydd ddim yn bodoli mwyach. Maen nhw'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r llwybr ac adlewyrchu symudiad y gwasanaeth prawf i 'fodel ailsefydlu'. Mae'r gwasanaeth prawf yn comisiynu eu gwasanaethau cymorth tai eu hunain.

- Mae asesiad cychwynnol o bobl yn y ddalfa, yn eu categoreiddio yn ôl cymhlethdod (isel/canolig/uchel).
- Y nod yw lleihau nifer yr achosion y mae angen i'r Awdurdod Lleol ymdrin â nhw.
- Unwaith y bydd contractau gwasanaethau 'Diwrnod Un' wedi dod i ben, bydd y Gwasanaeth Prawf yn comisiynu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru.

- Pan fydd yr holl opsiynau wedi dod i ben, does neb o reidrwydd yn cymryd cyfrifoldeb: Mae angen dod o hyd i atebion tai ar gyfer pobl sydd yn y sefyllfa yma – er bod yr ateb yn aneglur
- Mynegodd y gwasanaeth prawf yr angen am ddull cydweithredol rhwng y gwasanaeth prawf, carfan llety'r Awdurdod Lleol, a charfanau perthnasol eraill – yn enwedig ynghylch y broses Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a rhannu arfer da.

Bydd unrhyw unigolyn sy'n peri pryder arbennig o fewn ei asesiad risg yn cael ei atgyfeirio at MAPPA lleol (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Dyma ddull aml-asiantaeth o nodi a rheoli troseddwy treisgar neu rywiol risg uchel. Bydd opsiynau tai a symud ymlaen yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn er mwyn atal y person rhag dod yn agored i niwed mewn cartref neu gysgu allan.

Cafodd pryder ei fynegi hefyd gan y Gwasanaeth Prawf ynghylch cyn-droseddwy benywaidd sy'n aml yn cael profiadau trawmatig sy'n gwneud llety dros dro gyda dynion yn anaddas. Mae'r atgyfeiriadau i wasanaethau Lloches Cam-drin yn y Cartref sy'n cael eu gwrthod gan fod anghenion pobl yn rhy uchel a/neu gymhleth yn adlewyrchu pa mor heriol mae hi ar hyn o bryd o ran ceisio ffeindio llety a gwasanaethau i fenywod sydd yn y sefyllfa yma.

Serch gweithio'n fwy cydweithredol, mae'r Gwasanaeth Prawf yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arny'n nhw'n gynharach (h.y. cyn y pwynt troi allan) fel bod modd iddyn nhw chwarae rhan fwy ataliol. Dyma oedd eu prif flaenoriaethau:

- Angen rhagor o lety ar gyfer pobl sengl
- Atal menywod rhag gorfod rhannu gyda dynion sydd â hanes o gam-drin domestig sy'n digwydd ar hyn o bryd
- Gwella amrywiaeth ac ansawdd llety dros dro
- Gwell ymateb ar y cyd ynghylch MAPPA – adolygu'r gwersi a ddysgwyd ac ymrwymo i ragor o ddulliau gweithredu ar y cyd a dysgu gweithredol
- Asesu effaith Cyfarfodydd y Tasglu Digartrefedd Rhanbarthol sy'n cael eu mesur mewn perthynas ag ymatebion aml-asiantaeth.

Rhannodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y posibilrwydd o gyn-droseddwy yn colli statws blaenoriaeth a'r polisi 'pawb i mewn' yn dod i ben.

Gwasanaethau a ariennir gan GCT ar gyfer cyn-droseddwy

Mewn ymateb i lefel yr angen yn RhCT, mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o wasanaethau i gefnogi cyn-droseddwy o dan ymbarél Tai yn Gyntaf, a gaiff ei ariannu drwy drefniadau ariannu arloesol Llywodraeth Cymru. O 1 Ebrill 2022 bydd y ffrwd ariannu yma'n cael ei throsglwyddo i'r Grant Cymorth Tai.

Mae Tai yn Gyntaf yn cynnwys pedwar prosiect, ac mae tri o'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer cyn-droseddwy:

- Prosiect Rheoli Troseddwy Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM),
- Prosiect Grymusol,
- Prosiect Ymateb Cyflym
- Prosiect Pobl Ifainc (16-24 oed) yw'r pedwerydd prosiect, ac mae disgrifiad ohono yn yr adran Plant a Phobl Ifainc.

Mae crynodeb isod o'r gwaith ym mhrosiectau cyn-droseddwy Tai yn Gyntaf, yn ogystal â manylion pob prosiect:

- Ym mis Rhagfyr 2021, roedd **42** o bobl ar y cynllun cyfredol, a daeth **2** atgyfeiriad newydd i law yn ystod Rhagfyr 2021. Daeth hyn â'r cyfanswm o bobl sydd wedi cael mynediad i'r cynllun ers y dechrau i **68**.
- Dechreuodd **1** tenantiaeth Tai yn Gyntaf newydd yn ystod Rhagfyr 2021, gan ddod â'r cyfanswm o denantiaethau i **28**.
- Roedd **24** person (**57.1%**) ar y cynllun yn cynnal tenantiaethau ar ddiwedd Rhagfyr 2021.
- Doedd **4** person (**10%**) a oedd ar y cynllun ddim yn byw yn eu tenantiaeth ar ddiwedd mis Rhagfyr 2021, oherwydd dedfryd o garchar (**3**) a derbyn i'r ysbyty (**1**). Roedd yr unigolion yma'n cael cymorth o hyd lle maen nhw'n byw.
- Roedd **14** person (**33.3%**) ar y cynllun heb sicrhau tenantiaeth ac yn cael eu cefnogi drwy allgymorth. Roedd **8** person yn byw mewn llety brys/gwely a brecwast, roedd **1** person yn yr ysbyty ar y pryd ac i'w roi mewn llety brys/gwely a brecwast ar ôl iddo gael ei ryddhau, roedd **1** person yn y ddalfa ac i'w roi mewn llety brys/gwely a brecwast ar ôl ei ryddhau, roedd **2** person yn y ddalfa ar y pryd a byddai dim cartref sefydlog gyda nhw ar ôl eu rhyddhau, doedd dim cartref sefydlog gan **1** person ac roedd **1** person yn byw mewn gwasanaeth prawf.

Prosiect Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (Wisdom)

Mae'r Prosiect Wisdom yn gweithio gyda throseddwyr sydd â lefel uchel o risg ac sy'n cael anhawster wrth sicrhau tai, gan gynnwys y rheiny ag anghenion cymhleth sydd ddim yn rhan o'r trefniadau cyfredol sydd ar waith ar gyfer ailgartrefu troseddwyr o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).

	2017/2018	2018/2019	2019/2020	2020/2021
Nifer yr atgyfeiriadau	1	4	5	1
Nifer yr unigolion sydd wedi dod â chymorth i ben	0	1	4	1
Rheswm dros ddod â chymorth i ben	Dd/B	Dychwelyd i'r carchar (1)	Dychwelyd i'r carchar (1) Cymorth wedi'i gwblhau (3)	Dychwelyd i'r carchar (1)
Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd cymorth	1	5	9	6

Tabl 5: Data cyflawniad Prosiect Tai Wisdom 2017-2021

Prosiect Allgymorth Grymusol

Mae'r Prosiect Allgymorth Grymusol yn darparu llety annibynnol a pharhaol i droseddwyr, gan gynnig dull ehangach wedi'i arwain gan dai, a darparu cymorth ychwanegol lle bo angen.

Caiff yr eiddo eu darparu gan bob un o'r darparwyr tai gyda threfniadau cymorth ar gael gan POBL. Mae'r prosiect yn darparu llety un ystafell wely wedi'i ddodrefnu ar gyfer anghenion cyffredinol.

	2019/2020	2020/2021
Nifer yr atgyfeiriadau	12	5
Nifer yr unigolion newydd yn ymuno â'r prosiect	12	5
Nifer yr unigolion sydd wedi dod â chymorth i ben	1	1
Rheswm dros ddod â chymorth i ben	Wedi gwrthod cymorth/carchar	Carchar
Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd cymorth	12	16

Tabl 6: Data cyflawniad Prosiect Allgymorth Grymusol 2019-2021

Prosiect Ymateb Cyflym

Dechreuodd y prosiect Ymateb Cyflym ym mis Hydref 2019. Cafodd ei ddatblygu gan y Cyngor i roi cymorth i unigolion sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref ac sy'n troseddu dro ar ôl tro. Bwriad y prosiect yw cefnogi unigolion ag anghenion cymhleth gyda'r nod o atal ail-droseddu yn y dyfodol.

Mae'r prosiect wedi'i sefydlu i ddarparu ymateb aml-asiantaeth effeithiol yn seiliedig ar egwyddorion Tai yn Gyntaf i unigolion cyn iddyn nhw adael Carchar Caerdydd ac Eastwood Park. Ar ôl derbyn unigolyn ar gyfer y prosiect, mae'r Gymdeithas Tai yn cymryd cyfrifoldeb am ddod o hyd i eiddo addas.

Caiff cymorth ddwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ei ddarparu gan Pobl ynghyd â Swyddogion Tai'r Gymdeithas Tai yn ddyddiol, gan leihau'n raddol i bob yn ail ddiwrnod yn amodol ar anghenion yr unigolyn. Pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu paru ag eiddo tai cymdeithasol, mae'r prosiect yn dodrefnu'r eiddo'n llawn ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth, sy'n galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i symud i eiddo mae modd iddo ei alw'n gartref ac yn negyddu'r mater o orfod ei ddodrefnu eu hunain, sy'n yn aml iawn yn anodd oherwydd diffyg arian. Mae'r prosiect hefyd yn talu am Drwydded Deledu am flwyddyn i'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn hefyd yn help mawr iddyn nhw gan ei fod yn helpu i reoli un bil cyfleustodau. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn cael eu llethu gyda thalu biliau cyfleustodau gan nad yw nifer wedi gwneud hyn o'r blaen, ond caiff cymorth ei ddarparu i'w grymuso a rhoi'r sgiliau a'r offer sydd eu hangen arnyn nhw i reoli eu harian a'u tenantiaeth.

	2019/2020	2020/2021
Nifer yr atgyfeiriadau	7	1
Nifer yr unigolion sydd wedi dod â chymorth i ben	0	3

Rheswm dros ddod â chymorth i ben	Dd/B	Dychwelyd i'r carchar (2) Wedi marw (1)
Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd cymorth	7	8

Tabl 7: Data cyflawniad Prosiect Ymateb Cyflym 2019-2021

Anabledd dysgu

Penawdau

- Mae gwasanaethau llety Anableddau Dysgu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn defnyddio cyllid GCT. Mae angen datblygu'r broses casglu data ar deilliannau cymorth i bobl ag anabledd dysgu

Roedd Asesiad Poblogaeth Cwm Taf yn 2016 yn amcangyfrif fod gan tua 5,500 o bobl yng Nghwm Taf anabledd dysgu ac mae tua 2,500 o'r rhain yn blant a phobl ifainc.

Roedd pobl ag Anabledd Dysgu eisiau gwasanaethau gwahanol i'r hyn sydd wedi'i ddarparu yn hanesyddol, gan symud i ffwrdd o wasanaethau oriau dydd a chwarae rhan weithredol yn eu cymuned. Dyma heriau eraill y tynnwyd sylw atyn nhw yn yr asesiad poblogaeth:

- Anawsterau wrth gael mynediad brys i wasanaethau
- Yr angen i wasanaethau weithio ar y cyd
- Mae angen i'r gwasanaeth weld yr unigolyn yn hytrach na'r anghenion

Roedd pobl ifainc ag anabledd dysgu yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant; felly, roedd yn bosibl nodi'r angen gwirioneddol yn hytrach nag angen rhagamcanol. Dangosodd y data y byddai 97 o bobl ifainc ag anabledd dysgu yn trosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion dros y 5 mlynedd nesaf ac angen llety.

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cyfuno cyllid gofal cymdeithasol a GCT i gefnogi pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig o ran byw â chymorth. O ganlyniad, mae mesur y galw a deilliannau gan gyfeirio'n benodol at effaith GCT wedi bod yn heriol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil yn 2020¹⁵ a dynnodd sylw at yr ystod eang o lefelau gwariant ar leoliadau anabledd dysgu, gan ddefnyddio cyllid Cymorth i Bobl ar y pryd, ar draws awdurdodau lleol Cymru. Cynigiodd yr adroddiad nifer o opsiynau a fyddai o bosibl yn ail-gydbwysu canrannau cyllid Cymorth i Bobl a Gofal Cymdeithasol, ond bu'n rhaid atal rhoi'r rhain ar waith oherwydd y pandemig.

Plant a Phobl Ifainc

¹⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/deall-cyllid-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-cymorth-llety-ansibleddau-dysgu-ledled-cymru.pdf>

Penawdau

- Pobl seng rhwng 16 a 25 oed yw'r gyfran uchaf o geisidau digartrefedd i'r Cyngor. Mae hyn wedi cynyddu bob blwyddyn a thrwy pandemig Covid-19. Bydd gan nifer o'r bobl ifainc yma brofiad o ofal.
- Bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad gan deuluoedd agored i niwed a rhieni sengl/mamau beichiog agored i niwed bob blwyddyn dros y tair mlynedd ddiwethaf.
- Mae'r GCT yn ariannu prosiectau tai ar gyfer pobl ifainc yn ogystal â'r cynllun Llety â Chymorth ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 24 oed sy'n gadael gofal.
- Mae angen datblygu'r broses casglu data ar ddeilliannau cymorth ar gyfer llety â chymorth i bobl ifainc.
- Mae angen sicrhau bo Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn archwilio'i ymateb rhianta corfforaethol o ran plant a phobl ifainc sydd â phrofiad ofal a'u hanghenion llety yn y dyfodol.

Yn ôl yr Asesiad Poblogaeth amcangyfrifir bod poblogaeth plant Cwm Taf wedi cynyddu ychydig rhwng 2005 a 2015 gan godi 1.4% yn RhCT. Mae gan RCT broffil oedran cymharol ifanc gyda phlant yn cyfrif am 21 y cant o'r boblogaeth ac oedolion ifainc (rhwng 18 a 24 oed) yn cyfrif am 9 y cant o'r boblogaeth. Bydd y boblogaeth gyffredinol o bobl 0 i 24 oed yn gostwng 1.6 y cant rhwng 2016 a 2025 ar draws ardal Cwm Taf. Bydd Rhondda Cynon Taf yn gweld cynnydd canrannol bach yn nifer y plant rhwng 0 a 17 oed sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.¹⁶

Pobl sengl rhwng 16 a 25 oed yw'r gyfran uchaf o geisidau digartrefedd i'r Cyngor. Mae hyn wedi cynyddu bob blwyddyn a thrwy'r pandemig Covid-19.

Bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau i wasanaeth Un Pwynt Mynediad y Cyngor gan deuluoedd agored i niwed a rhieni sengl/mamau beichiog agored i niwed bob blwyddyn dros y tair mlynedd ddiwethaf.

Prosiect Pobl Ifainc

Mae'r Prosiect Pobl Ifainc yn darparu ymateb aml-asiantaeth er mwyn atal digartrefedd ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 24 oed sydd ag anghenion hynod gymhleth a heriol, sydd bellaf i ffwrdd o annibyniaeth ac sydd wedi ymddieithrio oddi wrth wasanaethau llwybrau mwy traddodiadol. Nid dim ond ailadrodd modelau oedolion ar gyfer Tai yn Gyntaf mai'r model yma, ond mae hefyd yn bodloni anghenion a galluoedd datblygiadol pobl ifainc.

Mae'r prosiect yn darparu hyd at 10 uned o lety â chymorth wedi'u gwasgaru i bobl ifainc sydd ag anghenion cymhleth a hanes o fod yn ddigartrefedd dro ar ôl tro. Mae gan y bobl ifainc sy'n cael eu cefnogi ar y prosiect gefndir o ofal ac maen nhw wedi cael cymorth gan y Gwasanaethau i Blant a/neu Oedolion.

	Hydref 2019 – Mawrth 2021
Nifer yr atgyfeiriadau	10

¹⁶ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, Mawrth 2017

Nifer yr atgyfeiriadau a gafodd eu derbyn i'r prosiect	7
Nifer yr unigolion sydd wedi dod â chymorth i ben	0

Tabl 8: Data cyflawniad Prosiect Pobl Ifainc 2019-2021

Lleoliadau Llety â Chymorth

Mae'r Cynllun Llety â Chymorth yn darparu llety â chymorth i bobl ifainc rhwng 16 ac 21 oed, drwy eu galluogi i gael llety mewn cartrefi preifat cymeradwy yn RhCT. Mae'n rhan o ystod o opsiynau llety ar gyfer pobl ifanc sy'n cael ei gefnogi gan y carfanau 16 oed neu'n hŷn.

Yn rhan o'r Strategaeth Llety a Chymorth¹⁷, nododd adolygiad yr angen i ehangu'r Cynllun Llety â Chymorth ond bu oedi yn sgil Covid-19. Mae'r cynllun wedi cefnogi rhwng 10 a 12 lleoliad ar unrhyw un adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Gweithiwr Cymorth Digartrefedd Ieuenctid

Yn dilyn adolygiad diweddar, cafodd Gweithiwr Cymorth Digartrefedd Ieuenctid ei benodi ym mis Ebrill 2021. Mae'r swydd newydd yma yn darparu cymorth â mwy o ffocws i bobl ifainc a bydd yn cynorthwyo llwyth gwaith y Swyddog Digartrefedd Ieuenctid. Yn flaenorol, roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu drwy Grant Cymorth Ieuenctid a'i gyflwyno drwy'r Prosiect 'Emphasis'. Mae'r prosiect newydd yn rhoi darpariaeth ar unwaith ac mewn argyfwng ac yn cynnig cymorth un wrth un i bobl ifainc rhwng 16 a 24 oed, sy'n profi chwalfa deuluol ac sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda Charfan Atebion Tai'r Cyngor i gynnig cymorth i bobl ifainc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref.

Bydd y gweithiwr cymorth yn canolbwyntio ar atal a chynorthwyo'r person ifanc i aros yn yr eiddo neu ddychwelyd adref.

Pobl hŷn

Penawdau


- Mae yna boblogaeth gynyddol o bobl hŷn ag anghenion mwy cymhleth a fydd angen mwy o gapasiti o ran opsiynau tai a chymorth sy'n helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, neu lety sy'n cael ei ddynodi yn ôl oedran.

Mae'r Asesiad Poblogaeth yn nodi bod nifer y bobl hŷn sy'n byw yng nghymunedau Cwm Taf yn cynyddu wrth i bobl fyw bywydau mwy hir ac iach. Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd ein poblogaeth o bobl dros 65 oed yn cynyddu 30%, a bydd ein poblogaeth o bobl dros 80 oed yn cynyddu 70%.

Mae'r Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn rhwng RhCT a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ceisio sicrhau bod pobl hŷn yn byw bywydau hirach, iachach, llawnach a hapusach; lle maen nhw'n cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo modd, wrth gydnabod bod modd i rai fynd yn sâl, yn fregus, neu'n agored i niwed, a sicrhau bod y bobl hŷn yn cael y parch, y gofal, a'r cymorth maen nhw eu heisiau a'u hangen ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.

¹⁷Strategaeth Llety a Chymorth i Bobl Ifainc 16 oed neu'n hŷn sy'n Gadael Gofal. 2019-2022

Bydd cynnydd rhagamcanol yn y boblogaeth henoed yn arwain at lefelau uwch o ddementia a fydd yn cael effaith fawr ar yr angen i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer y grŵp yma.



Ffigur 18: Amcangyfrif o'r boblogaeth â dementia 2015-2035

Mae pobl hŷn yn rhan bwysig ac arwyddocaol o'n cymuned. Yn y blynyddoedd i ddod bydd cyfran y bobl dros 55 oed yn cynyddu'n sylweddol yn RhCT.

Bydd pobl yn byw yn hirach, ac wrth iddyn nhw heneiddio bydd anghenion mwy cymhleth ganddyn nhw.

Yn gyffredinol mae pobl eisiau parhau i fyw yn eu cartref a'u cymuned eu hunain. Mae rhai pobl yn fodlon symud eiddo er mwyn galluogi hynny i ddigwydd. Bydd angen cymorth ar eraill i gadw'n iach a pharhau i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau. Yn gyffredinol, mae modd i ni ddisgwyl twf yn y galw am ein gwasanaethau gan y genhedlaeth hŷn. Mae angen gwell cynllunio/eglurder o ran sut mae modd i gyllid/gwasanaethau GCT gynorthwyo gydag agenda i:

- atal angen,
- lleihau angen,
- gohirio angen a
- diwallu'r angen am wasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

Anabledd Corfforol a Nam Synhwyaidd

Crynodeb

Mae'r GCT yn ariannu lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau corfforol o fewn y Gwasanaethau i Oedolion.

Mae angen datblygu'r broses casglu data ar ddeilliannau cymorth ar gyfer llety â chymorth i bobl ifainc.

Mae pobl ag anawsterau corfforol yn gwneud ceisiadau i ailgartrefu o'r ysbyty, yn aml ar fyr rybudd. Mae angen rhagor o ddata a sylw ar bwynt cynharach ar RhCT, a hynny'n seiliedig ar lwybr corfforaethol cytûn.

Ar adeg yr Asesiad Poblogaeth¹⁸ roedd tua 4150 o bobl yng Nghwm Taf wedi'u cofrestru ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu. Credai darparwyr gwasanaeth nad oedd y rhif hwn yn

¹⁸ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, Mawrth 2017

adlewyrchiad cywir o'r niferoedd yr effeithir arnynt gan nad yw pobl yn uniaethu â'r iaith, y diffiniadau a'r derminoleg a ddefnyddir.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth byddar a dall, yn enwedig yn ddiwylliannol byddar a dall (y rhai a gafodd eu geni'n fyddar neu'n ddall), yn teimlo'n arbennig nad oedden nhw'n cysylltu â'r term 'nam'. Doedden nhw ddim yn teimlo bod nam neu golled ganddyn nhw gan nad oedd y synnwyr hwnnw ganddyn nhw erioed i'w golli neu gael nam arno. Roedd problemau hefyd o ran tangofnodi gan nad oedd pobl eisiau bod ar gofrestrau gan nad oedden nhw'n siŵr sut y byddai'r wybodaeth yma'n cael ei defnyddio, neu eu bod yn poeni am wahaniaethu.

Dyma rai o'r themâu cyffredin a nodwyd drwy'r asesiad poblogaeth ar gyfer pobl ag anableddau:

- Roedd pawb eisiau teimlo'n rhan o'u cymuned a pheidio â theimlo eu bod nhw wedi'u hynysu'n gymdeithasol.
- Doedd pobl ddim yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael iddyn nhw na sut i gael gafael ar y cymorth a'r help sydd eu hangen arnynt nhw.
- Roedd dewis ac annibyniaeth yn bwysig i bobl anabl, yn yr un modd ag y maen nhw'n bwysig i bobl sydd ddim yn anabl. Mae pawb eisiau teimlo'n rhan o bethau, teimlo bod ganddyn nhw reolaeth a bod rhywun yn gwrando arnynt nhw, a theimlo eu bod nhw'n cael eu parchu. Efallai bod gan bobl nifer o anghenion ond eu bod nhw ddim eisiau defnyddio nifer o wasanaethau, gan orfod ailadrodd eu stori dro ar ôl tro.

Mae lleoliadau arbenigol anabledd corfforol Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a ariennir yn rhannol gan GCT, wedi gweld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda chynnydd sylweddol mewn angen yn 2021. Ar adeg yr asesiad anghenion yma mae 26 o unigolion ag anableddau corfforol mewn lleoliadau arbenigol. Byddai'r unigolion hyn i gyd yn cael eu hystyried ar gyfer llety newydd a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn well ac yn dod â nhw'n nes at adref wrth hybu annibyniaeth a dewis.

Mae pobl ag anawsterau corfforol yn gwneud ceisiadau i ailgartrefu o'r ystyby, yn aml ar fyr rybudd. Yn y sefyllfaoedd yma, mae angen rhagor o ddata a sylw ar y Cyngor ar bwynt cynharach. Mae angen dod o hyd i atebion tymor byr tra bod addasu neu adeiladu yn symud ymlaen. Mae dau eiddo Cronfa Gofal Canolraddol yn eu lle i'r diben yma ac mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar y defnydd ar gyfer Seibiant Gofal Ychwanegol. Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen llwybr corfforaethol y mae pob partner wedi ymrwymo iddo.

Cynhalwyr

Crynodeb

Mae angen i wasanaethau GCT sicrhau eu bod yn integreiddio anghenion cynhalwyr i'r gwaith o gomisiynu a darparu cymorth.

Ar adeg yr asesiad poblogaeth roedd bron i 13% o boblogaeth Cwm Taf, tua 29,640 o bobl yn RhCT, yn darparu gofal i aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigur Cymru gyfan o 12% ac yn uwch na ffigur Cymru a Lloegr o 10%. Mae'r Strategaeth Cynhalwyr ar gyfer Cwm Taf yn nodi amcanion allweddol y mae angen i'r gwasanaeth GCT gyfrannu atynt nhw:

- Adnabod cynhalwyr
- Rhaid bod modd i gynhalwyr ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt nhw'n hawdd ac yn gyflym
- Rhaid gwrando ar gynhalwyr a'u deall

- Cymorth ataliol

Mae angen i wasanaethau GCT sicrhau eu bod yn integreiddio'r amcanion yma i'r gwaith o gomisiynu a darparu cymorth.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Penawdau

- Mae niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau yn methu â chael eu derbyn i lochesi yn RhCT oherwydd lefelau angen a/neu risg – yn aml yn gysylltiedig â hanes trawma sylweddol, camddefnyddio sylweddau sy'n cydfodoli a heriau iechyd meddwl.
- Er bod dim llawer o geisiadau digartrefedd ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin yn y cartref o'i gymharu ag awdurdodau eraill, mae angen datblygu gwasanaethau rhaglenni tramgwyddwyr cam-drin yn y cartref yn benodol yng Nghwm Taf Morgannwg.

Dyma heriau allweddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol a gafodd eu nodi yn yr Asesiad Poblogaeth¹⁹:

- Mae angen grymuso pobl fel bod modd iddyn nhw roi gwybod am drais a manteisio ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig. Mae nifer o ddiodefwrwr sy'n profi trais neu gam-drin domestig yn dewis peidio rhoi gwybod amdano. Dydy nifer o bobl sydd yn rhoi gwybod i'r heddlu neu asiantaethau eraill am ddigwyddiadau ddim yn parhau i dderbyn y cynnig o gymorth. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn aml yn helpu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn bennaf ac mae llai o gymorth ar gael i eraill.
- Mae angen i'r gwasanaethau ddiwallu anghenion pob grŵp sy'n rhan o'n cymunedau. Er enghraifft, doedd dim gwasanaethau yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer dynion.
- Mae angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n arwain at drais. Mae nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn profi amrywiaeth o broblemau fel camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl gwael, ac efallai eu bod nhw'n hysbys i wasanaethau eraill. Mae'n bosibl bod y rhain yn achosi neu'n cyfrannu at y trais neu'r gamdriniaeth maen nhw'n ei brofi ac ni ddylid mynd i'r afael â nhw ar eu pen eu hunain.
- Mae angen i'r gwasanaethau ddiogelu plant mewn teuluoedd lle mae trais neu gam-drin yn digwydd, a'u cefnogi. Roedd yr wybodaeth gan wasanaethau yn nodi bod plant yn bresennol yn y rhan fwyaf o gartrefi sy'n cefnogi diodefwr trais neu gamdriniaeth. Mae plant sy'n gweld cam-drin domestig, neu sydd â phrofiad ohono, yn fwy tebygol o brofi problemau yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Dydy'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ddim bob amser yn rhannu gyda nhw beth maen nhw ei eisiau na sut mae modd i wasanaethau ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn golygu y bydd gwasanaethau o bosibl yn cael eu dylunio gan weithwyr proffesiynol sy'n credu eu bod nhw'n gwybod beth sydd ei angen ar bobl heb gael gwybod gan y bobl hynny a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth yn y pen draw.

¹⁹ Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, Mawrth 2017

Mae pum nod allweddol gan Strategaeth a Chynllun Cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cwm Taf Morgannwg 20:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref, a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf.
- Torri'r cylch rhwng cenedlaethau o ymddygiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref, a thrais rhywiol mewn teuluoedd trwy hybu perthnasoedd iach mewn plant a phobl ifainc.
- Dal y troseddwr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cefnogi nhw i newid eu hymddygiad.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu llunio a'u comisiynu i ddiwallu anghenion poblogaeth Cwm Taf.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben a bod yr ansawdd wedi'i sicrhau

Mae'r cynnydd yn erbyn y cynllun i'w weld [yma](#).

Defnydd o wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol y GCT yn RhCT

Mae'r tablau isod yn dangos yr atgyfeiriadau, penderfyniadau'r atgyfeiriadau ac anghenion heb eu diwallu ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol y GCT yn RhCT.

Gwybodaeth atgyfeirio i loches	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm 4 blynedd
Nifer yr atgyfeiriadau	280	316	282	286	1164
Atgyfeiriadau wedi'u derbyn	193	185	169	154	701
Atgyfeiriadau heb eu derbyn	87	131	113	133	464

Tabl 9: Menywod sengl yn ffoi rhag cam-drin yn y cartref gyda chymhlethdodau uchel/camdefnyddio sylweddau ac argyfwng iechyd meddwl

Rhesymau dros beidio â derbyn yr atgyfeiriad	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm 4 blynedd
Risg o niwed, trais tuag at breswylwyr eraill	16	18	12	14	60
Cam-drin yn y cartref ddim yn brif angen	28	27	28	20	103
Dim hawl i arian cyhoeddus		2	3	4	9
Methu cwblhau asesiad risg		19	3	2	24

²⁰ Strategaeth a Chynllun Blynyddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol Cam Taf Morgannwg 2017-2021

Dim hawl i fudd-daliadau		2	2		4
Dim lle ar gael yn y lloches		5	14	14	33
Ddim yn ddiogel yn RhCT – cleient wedi cael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau mewn ardal arall	24	13	6	11	54
Methu diwallu anghenion cymorth uwch	19	37	42	51	153

Tabl 10: Rhesymau dros beidio â derbyn yr atgyfeiriad

Roedd cynnydd amlwg yn nifer y bobl oedd ag anghenion cymorth nad oedd modd eu diwallu. Caiff y rhain eu harchwilio ymhellach yn y tabl isod.

Rhesymau dros beidio â diwallu Anghenion Cymorth Uwch	
Anabledd corfforol yn gofyn am addasu cyfleusterau / ddim ar gael ar adeg yr atgyfeiriad	6
Iechyd meddwl – cleient yn cyflwyno'i hunan yn hunanladdol / yn hunan-niweidio ar adeg yr atgyfeiriad	48
Camddefnydd afreolus o sylweddau – ddim yn gleient cyfredol i'r gwasanaethau cyffuriau ac alcohol	66
Iechyd meddwl – cleient angen cymorth dyddiol gan y Garfan Iechyd Meddwl – y dynamig yn y lloches yn amhriodol ar adeg yr atgyfeiriad	4
Hanes o droseddu treisgar	18
Cyfanswm	142 ²¹

Tabl 11: Rhesymau dros beidio â diwallu anghenion cymorth uwch

Er nad oes llawer o geisiadau digartrefedd ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin yn y cartref, mae angen datblygu gwasanaethau rhaglenni tramgwyddwyr cam-drin yn y cartref yn benodol yng Nghwm Taf Morgannwg, yn enwedig ar gyfer y sawl sy'n camu i lawr o'r Rhaglen Cyflawnwyr "Drive" lefel uwch.

²¹ Mae anghysondeb yn y data gan nad oedd wedi'i gofnodi mor effeithiol yn ystod 2017-18 o'i gymharu â'r tair blynedd flaenorol.

Llety

Penawdau

- Llety un ystafell wely sydd â'r angen mwyaf o ran tai ar draws pob band yn RhCT, fodd bynnag mae diffyg sylweddol o lety un person ac un ystafell wely ar draws pob sector.
- Mae lleoliadau mewn llety dros dro wedi codi yn unol â'r cynnydd yng ngheisiadau digartrefedd. Pobl rhwng 16 a 25 oed yw'r grŵp cleientiaid mwyaf sy'n cael llety.
- Ers y pandemig a'r cynnydd yng ngwerth tai yn RhCT, does dim llawer o landlordiaid preifat bellach eisiau gweithio gyda chleientiaid sydd wedi'u hatgyfeirio gan y Cyngor, gan fod yn well ganddyn nhw ddod o hyd i denantiaid preifat.
- Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol. Mae'r asiantaeth yn gwella mynediad i'r sector rhentu preifat, ond mae ei heffaith yn arafach na'r disgwyl oherwydd yr heriau presennol o ran ymgysylltu â landlordiaid preifat.
- Roedd yr Asesiad Marchnad Tai Lleol diweddaraf (2017) yn nodi fod gwahaniaeth mawr o ran fforddiadwyedd tai rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig y fwrdeistref.
- Mae canran sylweddol o'r boblogaeth yn dibynnu ar y sector rhentu preifat am lety, ac mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl mewn llety rhent preifat.
- Mae argaeledd tai cymdeithasol yn amrywio'n fawr ar draws y fwrdeistref.

Mae'r adran yma'n adolygu'r data ar argaeledd llety, yn benodol:

- Y galw am ddyraniadau ar hyn o bryd
- Llety dros dro
- Y sector rhentu preifat
- Cynllunio ac adeiladu newydd

Galw ar y Gwasanaethau Dyrannu Llety

Mae'r Cyngor yn defnyddio system ar-lein o'r enw CeisioCartrefRhCT sy'n galluogi trigolion i gofrestru ar gyfer tai a gweld yr holl eiddo sydd ar gael i'w rhentu gan gymdeithasau tai sydd â chartrefi yn RhCT.

Ar 12 Hydref 2021, roedd 4669 o ymgeiswyr wedi'u cofrestru i gael eu hailgartrefu yn RhCT. Mae'r system yn categoreiddio'r angen am dai yn bedwar band. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

BAND A	<ul style="list-style-type: none"> • Angen brys am dŷ • Mae'r rhain yn achosion â therfyn amser sydd i'w hadolygu bob 3 mis • Bydd meini prawf cysylltiad lleol yn berthnasol, ac eithrio achosion MAPPA a digartrefedd
BAND B	<ul style="list-style-type: none"> • Angen uchel am dŷ • Ymgeiswyr sydd wedi'u pennu ym Mand A ond sydd heb gysylltiad lleol

	<ul style="list-style-type: none"> • Angen blaenoriaethol ar gyfer yr holl achosion digartref gwaeth beth fo'r cysylltiad lleol
BAND C	<ul style="list-style-type: none"> • Angen isel am dŷ • Ymgeiswyr sydd wedi'u pennu ym Mand B ond sydd heb gysylltiad lleol
BAND D	<ul style="list-style-type: none"> • Dim angen am dŷ • Ymgeiswyr sydd wedi'u pennu ym Mand C ond sydd heb gysylltiad lleol • (ac eithrio digartrefedd)

Tabl 12: Disgrifiad o'r categorïau ar gyfer CeisioCartref RhCT

Mae'r tabl isod yn rhoi ciplun o'r ceisiadau wedi'u dadansoddi fesul band a maint yr eiddo sydd ei angen. Mae hyn dangos mai dim ond 8.75% o'r ymgeiswyr sydd wedi'u pennu ym Mand A neu Band B, ac felly mae 91.25% o'r ymgeiswyr wedi'u pennu ag angen isel am dŷ neu â dim angen am dŷ.

Band A	161
Band B	248
Band C	1641
Band D	2619
Cyfanswm	4669

Tabl 13: Nifer yr ymgeiswyr wedi'u cofrestru â CeisioCartrefRhCT ar 12 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn nodi mai llety 1 ystafell wely yw'r categori sydd â'r angen mwyaf ar draws yr holl fandiau.

	Cyfanswm	Band A	Band B	Band C	Band D
1 ystafell wely	2232	114	105	840	1321
2 ystafell wely	911	29	71	420	911
3 ystafell wely	677	16	38	259	364
4 ystafell wely	155	2	17	115	21
5 ystafell wely	21	0	12	7	2
6 ystafell wely	5	0	5	0	0

Tabl 14: Ceisiadau wedi'u cofrestru yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely a'r band

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y bobl wedi'u cofrestru y mae angen addasiadau i'r cartref arnyn nhw.


	Cyfanswm	1 ystafell wely	2 ystafell wely	3 ystafell wely	4 ystafell wely	5 ystafell wely	6 ystafell wely	Band A	Band B	Band C	Band D
Lefel 1	12	5	3	4	0	0	0	3	0	3	6
Lefel 1 a 2	89	40	18	23	7	1	0	27	3	36	23
Lefel 2	659	472	120	44	20	2	1	19	12	294	334
Cyfanswm	760	517	141	71	27	3	1	49	15	333	363

Tabl 15: Nifer yr ymgeiswyr wedi'u cofrestru â CeisioCartrefRhCT y mae angen addasiadau arnyn nhw

Er bod nifer yr ymgeiswyr y mae angen addasiadau arnyn nhw yn gymharol isel o gymharu â'r ffigurau cyffredinol, codwyd mater drwy adborth gan randdeiliaid ynglŷn ag atgyfeiriadau i garfan ddigartrefedd y Cyngor ar gyfer ailgartrefu brys y rhai hynny sydd â newidiadau sylweddol o ran anghenion corfforol. Mae'r amserlenni byr ar gyfer ceisiadau gan bobl sy'n ceisio cael eu hailgartrefu o'r ysbyty yn her arbennig.


Defnyddio Llety Dros Dro

Mae lleoliadau llety dros dro yn adlewyrchu'n fras batrymau tebyg i gyflwyniadau digartrefedd yn RhCT. Cartrefi un person, ac yn arbennig dynion sengl, yw'r rhan fwyaf o'r lleoliadau yma. Y grŵp oedran sydd â'r mwyaf o leoliadau yw'r grŵp 16 i 25 oed, lle bu 520 o leoliadau rhwng 2018 a 2021. Mae hyn yn gostwng i 496 o leoliadau yn y grŵp oedran 26 i 35. Mae'r holl wahanol fathau o aelwydydd yn gostwng heblaw am ddynion sengl a menywod sengl â phlant sy'n dibynnu arnyn nhw – mae'r ddau grŵp yma'n cynyddu. O grŵp oedran 36 i 45, mae lleoliadau'r holl fathau o aelwydydd yn gostwng yn gyson ag oedran, ac erbyn grŵp oedran 56 i 65, mae cyfanswm o llai na 55 o leoliadau.



Figur 19: Nifer y lleoliadau llety dros dro yn ôl grŵp oedran / math o aelwyd, 2018-2021

Aelwydydd dynion sengl yw'r math o aelwyd mwyaf ar draws pob grŵp oedran, gan gynyddu dros amser o 57% o leoliadau rhwng 16 a 25 oed i 100% o leoliadau i'r rhai dros 76 oed. Aelwydydd menywod sengl yw'r ail grŵp mwyaf ac maen nhw'n gostwng o ran nifer a chyfran yr holl leoliadau fesul grŵp oedran: o 35% o'r holl leoliadau rhwng 16 a 25 oed i 15% erbyn y grŵp oedran rhwng 46 a 55 oed.



Ffigur 20: Canran y lleoliadau llewyd dros dro yn ôl Grŵp Oedran / Math o Aelwyd 2018-21

Y Sector Rhentu Preifat

Ers y pandemig a'r cynnydd yng ngwerth tai yn RhCT, does dim llawer o landlordiaid preifat bellach eisiau gweithio gyda chleientiaid sydd wedi'u hatgyfeirio gan yr awdurdod lleol, gan fod yn well ganddyn nhw ddo o hyd i denantiaid preifat. Mae Landlordiaid ac Asiantau Gosod wedi codi nifer o bryderon:

- Mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol (LTLI) yn is na'r rhenti marchnad sy'n cael eu hysbysebu:
 - Mae eiddo 1 ystafell wely ar gyfartaledd yn £15 yr wythnos dros gyfraddau LTLI,
 - Mae eiddo 2 ystafell wely ar gyfartaledd rhwng £30 a £50 yr wythnos dros gyfraddau LTLI,
 - Mae eiddo 3 ystafell wely ar gyfartaledd rhwng £70 a £120 dros gyfraddau LTLI,
 - Mae eiddo 4 ystafell wely ar gyfartaledd yn fwy na £100 i £450 dros gyfraddau LTLI yn dibynnu ar yr ardal (Taf-elái ar gyfer y rhent uwch).
- “Mae arolygiadau Carfan Iechyd y Cyhoedd yn creu mwy o waith, ac mae rhai o'r argymhellion ar gyfer gwaith i'w gwblhau yn afrealistig”. Ar ôl archwilio ymhellach, mae hyn yn cyfeirio at yr angen am ffenestri diogelwch mewn uned un person lle nad oes unrhyw blant yn cael eu lletya. Hefyd mae oedi o ran archwiliadau Iechyd y Cyhoedd yn arwain at gollu incwm rhent

wrth aros i'r eiddo gael ei archwilio

- Mae gan rai landlordiaid ac asiantaethau gosod tai restrau aros am eiddo o tua 30 i 40 o gleientiaid. Mae rhai darpar denantiaid yn bidio yn ebyn ei gilydd drwy geisio talu'r mwyaf ymlaen llaw i sicrhau eiddo. Mewn un achos diweddar rhoddwyd wybod bod tenant wedi sicrhau'r eiddo gyda chwe mis o rent ymlaen llaw.
- Mae yna amharoddrwydd i weithio gyda chyn-droseddwr gan fod rhentwyr preifat yn cael eu hystyried â llai o broblemau.
- “Pam fydden ni'n gweithio gyda'r Awdurdod Lleol pan fod popeth sydd wedi'i addo i ni'n flaenorol wedi'i frwsio o dan y carped – rydyn ni'n cael gwybod yn gyson y bydd ein ôl-ddyledion yn cael eu talu ond does dim byd byth yn cael ei dalu”?
- Mae rhai landlordiaid wedi datgan eu bod yn ei chael hi'n anodd cael eiddo 1 ystafell wely ar gael i'w rentu a bod diffyg llety 1 ystafell wely ar werth ar gael.
- Mae landlordiaid yn cael eu cynghori y bydd cymorth yn cael ei roi i bobl, ond os na fydd hyn yn digwydd am unrhyw reswm, caiff hyn ei weld fel bai'r ALL ac o ganlyniad mae yna amharoddrwydd i dderbyn rhagor o denantiaid ag anghenion cymorth.
- Wrth ofyn a oes modd negodi rhent is, yr ymateb yw nad oes angen iddyn nhw wneud hynny gan fod digon o ymgeiswyr a fydd yn talu'r pris rhent fel sydd wedi'i hysbysebu.
- Dydy'r cymhelliad o dalu bond a rhent ymlaen llaw am fis ddim yn gymhelliant bellach – mae ymgeiswyr yn cynnig talu 6 mis o rent ymlaen llaw ar eiddo i landlordiaid/asiantaethau.
- Mae'r fantais o allu trefnu budd-dal tai i'w dalu'n syth bin wedi mynd yn sgil credyd cynhwysol. Does dim modd i'r Cyngor warantu'r taliad uniongyrchol bellach ac mae Landlordiaid yn pryderu am yr oedi cyn derbyn taliadau cyntaf o gostau tai credyd cynhwysol.
- Gofynnir am warantwyr sy'n gweithio yn gyson bellach. Dydy'r rhain ddim o reidrwydd ar gael yn llwythi achosion y Cyngor.
- Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd LTLI a phrisiau rhent wedi cynyddu'n sylweddol sy'n lleihau opsiynau RhCT o ran dod o hyd i eiddo.

Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol

Cafodd cyllid gan Lywodraeth Cymru ei sicrhau gan y Cyngor i sefydlu'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yn RhCT ar ddechrau 2020/21. Mae hyn yn darparu tai fforddiadwy yn y sector rhentu preifat. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu carfan newydd gan gynnwys Arweinydd y Garfan a dau Swyddog Tai.

Mae'r garfan wedi'i gydleoli â'r Garfan Atebion Tai ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i helpu i nodi'r angen am dai a, lle bo modd, i ddefnyddio'r sector rhentu preifat i atal digartrefedd neu gyflawni dyletswydd gyfreithiol.

Er bod y garfan wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda nifer o landlordiaid preifat yn RhCT, mae eu cyfranogiad yn yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol wedi bod yn arafach na'r disgwyl o ganlyniad i broblemau gyda'r farchnad gyfredol a nodwyd uchod. Mae rhywfaint o adborth gan landlordiaid wedi nodi bod safonau eiddo gofynnol yn fater, ac er gwaethaf y cynnig grant a benthyciad i helpu gyda'r gwaith, mae'n atal rhai landlordiaid rhag gweithio gyda'r Cyngor yn enwedig os nad ydyn nhw'n byw yn lleol.

Bydd cyflwyno'r CLG yn genedlaethol yn y dyfodol yn gwella'r cynnig i landlordiaid yn y sector preifat a bydd yn rhoi cyfleoedd ariannol ychwanegol a gwell a fydd gobeithio yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun.

Cynllunio ac adeiladu

Gan ei fod yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf ar gyfer y cyfnod o 2017 i 2022/23, ac felly mae'r data yn yr asesiad yn dod o 2016. Serch hynny, mae'n cynnig mewnwelediadau defnyddiol.

- Mae gwahaniaeth mawr o ran fforddiadwyedd tai rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig y fwrdeistref.
- Mae canran sylweddol o'r boblogaeth yn dibynnu ar y sector rhentu preifat am lety, ac mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl mewn llety rhent preifat.
- Mae argaeledd tai cymdeithasol yn amrywio'n fawr ar draws y fwrdeistref. Ar draws pob sector mae diffyg sylweddol o lety person sengl ac un ystafell wely.

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ardal y Sir. Mae'r ddogfen yn darparu'r strategaeth ddatblygu a fframwaith polisi ar gyfer cyfnod penodol y cynllun. Roedd y CDLI yn cael ei ddiweddarau ar adeg yr asesiad yma felly mae'r data o'r cynllun presennol wedi'i gynnwys²². Nododd y cynllun safleoedd i ddarparu 5000 i 5450 o gartrefi newydd:

1. Hen Safle Glofa Fernhill, Blaenrhondda 350–400
2. Safle hen ffatri Phurnacite, Abercwmboi 500
3. Tir ar Safle Strategol Tresalem, Aberdâr 500–600
4. Tir i'r de o Hirwaun 400
5. Hen Lofa a Gwaith Golosg y Cwm, Tyn-y-nant, Pontypridd 800–950
6. Ardal Mwyndy/Tonysguboriau 500
7. Hen safle OCC, Llanilid, Llanharan 1950–210

Gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai

Mae'r adran yma'n crynhoi'r ffyrdd y mae'r gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai yn cael eu darparu gan y Cyngor. Mae'r Grant Cymorth Tai'n ariannu gweithgareddau fesul tri gwasanaeth gwahanol, gyda phob un yn cwrdd ag angen gwahanol:

- Uchel – Llety â Chymorth bob awr o'r dydd

²² *Cynllun Datblygu Lleol RhCT hyd at 2021 Mawrth 2011*

- Canolig – cymorth hyblyg rhwng yr oriau 9-5, yn cynnwys gyda'r nos ac ar y penwythnos
- Isel – Unedau gwasgaredig: mae'r rhain yn cynnwys cleientiaid sy'n byw yn llety ei hunain gyda chymorth fel y bo angen.

Cymorth fel y bo angen

Dechreuodd y gwasanaeth Cymorth fel y bo angen lleol yn Ebrill 2019. Mae'r gefnogaeth ar gael i bawb sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf ac mae'n cael ei gweithredu gan ddarparwyr cymorth, gyda phob darparwr yn gyfrifol am ardal leol benodol.

Mae'r model sy'n seiliedig ar ardal yn bodloni gwasanaeth anghenion newidiol. Mae'r newid yma wedi galluogi bod defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth waeth beth fo'u prif angen ac mae'r newid yma wedi arwain at gael gwared â'r angen am restrau aros.

Mae pob darparwr yn gweithredu gwasanaeth brysbennu sy'n bodloni anghenion y defnyddiwr e.e., atal ac ymyrraeth, cymorth materion tai a chefnogaeth barhaus ar lefel isel ble gall un gweithiwr cymorth cynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth ar bob lefel. Mae pob darparwr yn cynorthwyo â phob agwedd o gymorth materion tai.

Mae'r atgyfeiriad yn rhan o'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ('SPA'), mae'r cais yn cael ei brosesu yn seiliedig ar yr ardal, mae'r garfan Cymorth Materion Tai yn cael eu hysbysu am swydd wag gan y darparwr cymorth, mae'r darparwr yn asesu'r atgyfeiriad cyn sicrhau bod anghenion yr atgyfeiriad yn cael ei fodloni a bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar angen. Drwy gydol y gefnogaeth, bydd y darparwyr yn atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth i'r asiantaethau priodol os oes angen. Dydy'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ddim yn prosesu atgyfeiriadau am leoliadau arbenigol i'r rhai sydd ag anabledd dysgu neu anableddau corfforol, neu leoliadau arbenigol iechyd meddwl gyda chyfadran Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor. Dydy e ddim chwaith yn prosesu atgyfeiriadau ar gyfer Llety â Chymorth i bobl ifainc. Mae'r atgyfeiriadau yma'n cael eu delio gan banel atgyfeirio pwrpasol.

Mae'r gwasanaeth Cymorth fel y bo angen lleol yn cael ei weithredu mewn 3 cham:

Cam 1 – Atal ac ymyrraeth gynnar (Asesiad ariannol / Atgyfeiriad asiantaethau)

Yng ngham 1, gall y gefnogaeth para hyd at 3 mis. Dylai'r gefnogaeth ddechrau'n syth er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn derbyn cefnogaeth yn seiliedig ar ei anghenion, yn cynnwys cyngor arbenigol yn ymwneud â hawlio buddion, cymorth cynhwysiant ariannol, a chymorth i reoli dyled i osgoi sefyllfa sy'n gwaethygu.

Cam 2 – Cefnogaeth barhaus sy'n para hyd at 6 mis

Gall unigolion symud o gam 1 i gam 2 am hyd at 3 mis ychwanegol. Yn ystod y cyfnod yma bydd gweithiwr cymorth yn parhau i gefnogi nhw. Bydd y gefnogaeth yn dod i ben pan bod anghenion yr unigolyn yn cael ei ddiwallu.

Cam 3 – Cefnogaeth barhaus ar lefel isel: Mae unigolion yn symud i gam 3 os oes angen cefnogaeth barhaus ar lefel isel. Gall y gefnogaeth para cyhyd ag y bo angen, yn destun i adolygiad blynyddol.

Llety â Chymorth

Mae gwasanaethau ar gyfer anghenion penodol a grwpiau cleientiaid i'w gweld yn yr isadran sy'n dangos cipolwg o anghenion cymorth tai mwyaf arwyddocaol. Isod, mae'r gwasanaethau sydd ddim yn cael eu hesbonio yn yr isadran yn cael eu crynhoi:

Cymorth Gwasanaethau Digartrefedd

Ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro, mae gwasanaeth cymorth digartrefedd sydd newydd ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod gan bawb gweithiwr cymorth penodol. Mae carfan iechyd arbenigol sydd newydd ei sefydlu hefyd yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth mewn llety dros dro sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sydd wedi'u heffeithio gan sylweddu. Mae hyn wedi gwella mynediad y darparwr at therapi trawma.

Darpariaeth Lloches RhCT – Mitchell Terrace, Tonypandy

Darparodd y Gymdeithas Tai Unedig Cymru 4 uned llety er mwyn cynnig lloches i 4 menyw a'u plant sy'n dianc rhag trais domestig

Hostel Mill Street

Hostel sy'n cynnig llety dros dro ar gyfer y rhai sy'n ddigartref. Mae'r hostel yn rhan o'r parth cyngor tai ac yn cyflwyno i'r ganolfan cyngor tai. Mae'r llety yng nghanol Tref Pontypridd, y Cyngor biau'r adeilad ac mae cytundeb prydles yn ei le gyda 'Pobl', y nhw sy'n cael eu comisiynu i roi'r gefnogaeth ar y safle.

Gwasanaethau eraill y Grant Cymorth Tai

Paratoi a Symud Ymlaen (GRAMO)

Mae'r cynllun yma'n cynnig gwybodaeth ar bob agwedd o sut i fod yn denant da, yn cynnwys cyngor ar sut i dalu biliau cyfleustodau a sut i reoli arian o ddydd i ddydd. Mae tasgau'n cael eu gweithredu gyda'r nod o sicrhau bod y tenant yn parhau yn ei denantiaeth hir dymor. Mae'r cynllun yna i gefnogi pobl sy'n gadael gofal a thrigolion sydd wedi'u rhoi yn hosteli'r Cyngor, llety â chymorth a'r rhai sy'n gadael lleoliadau gofal i oedolion arbenigol.

Cyfryngu

Fel arfer, cyfryngu ydy un agwedd o'r gefnogaeth sydd ar gael mewn prosiectau; gall gwasanaethau eraill cynnwys cyngor a gwybodaeth am dai, cymorth ymarferol, a llety dros dro. Gall cyfryngu digwydd rhwng y person ifanc a'i rieni, neu unrhyw un arall sydd wedi cynnig cartref iddyn nhw. Mewn rhai achosion prin, mae'r cyfryngu yn gallu digwydd rhwng y person ifanc a'r hostel neu'r cartref sydd wedi'i gefnogi nhw.

MIND Resilience

Mind Cwm Taf Morgannwg sy'n darparu prosiect 'MIND Resilience', ac mae'n cwmpasu ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Nod y prosiect ydy cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n ddiartref a'r rhai sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl mân neu gymedrol.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r prosiect yn gweithio â hosteli ar gyfer y rhai sy'n ddiartref er mwyn i'w cynorthwyo a'u cefnogi i fod yn amgylcheddau mwy gwybodus yn seicolegol yn ogystal â gwneud pobl ddiartref yn fwy gwydn. Mae MIND yn esbonio 'Gall cymryd camau i edrych ar ôl eich lles eich helpu chi i ddelio â phwysau, a lleihau effeithiau straen ar eich bywyd. Weithiau, mae hyn yn cael ei adnabod fel gwydnwch emosiynol.

Cyngor ar Bopeth RhCT

Cafodd Prosiect atal digartrefedd ieuencid Cyngor ar Bopeth ei sefydlu yn 2018 i gefnogi'r Cyngor wrth gwrdd â'i ddyletswydd statudol yn unol â'r Ddeddf Tai 2014 i atal a lleddfu digartrefedd. Drwy ddarparu cyngor a chymorth ariannol i'r rhai sy'n derbyn cymorth gan y garfan Datrysiadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymorth i Bobl yn RhCT, ei nod yw sefydlogi a gwella sefyllfa ariannol pobl fregus yn RhCT, sy'n wynebu problemau megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a materion iechyd meddwl. Mae'n ymdrechu i atal digartrefedd cyn gynted â phosibl.²³

Atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai

Mae'r Garfan Grant Cymorth Tai yn gweithredu gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (SPA) ar gyfer atgyfeiriadau am Lety â Chymorth a gwasanaethau Cymorth fel y bo angen. Mae'r data sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (SPA) yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth i'r Grŵp Cynllunio Rhaglen Cymorth Tai RhCT a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf er mwyn tynnu sylw at y categorïau mwyaf cyffredin i gefnogi sut i adnabod blaenoriaeth y meysydd ar gyfer y Cynllun Strategol Grant Cymorth Tai yn lleol.

Mae'n bwysig cofio bod canran uchel o bobl yn cyflwyno â sawl angen, ac mae'r data yma'n cael ei gofnodi. Serch hyn, mae'r data yma wedi seilio ar ei brif angen yn unig.

²³ Adolygiad Digartrefedd Cyflym RhCT Awst 2021

Prif angen.	2018/2019	2019/2020	2020/21
Problemau iechyd meddwl	838	1055	738
Bod yn ddigartref neu eisiau atal bod yn ddigartref	215	334	431
Person hyn (55+)	526	330	314
Anabledd corfforol	125	159	86
Cam-drin yn y cartref	133	142	124
Teulu sy'n agored i niwed	42	102	148
Cam-drin â sylweddau (Alcohol 52 - Cyffuriau 32)	114	90	28
Person ifanc sy'n agored i niwed (16-24)	98	81	84
Rhiant sengl/mam sy'n disgwyl babi sy'n agored i niwed	48	75	88
Anabledd/Anawsterau dysgu	71	74	72
Person sengl rhwng 25 a 54 oed sydd ag anghenion cymorth sydd ddim wedi'u cynnwys ar y rhestr	32	42	80
Salwch cronig	50	34	37
Cyn-droseddwr	33	34	42
Anaf i'r Ymennydd	11	20	1
Pobl ag anhwylderau datblygiadol h.y. awtistiaeth	9	19	12
Person ifanc sy'n agored i niwed ac sy'n gadael y system ofal	31	17	12
Arall	10	17	23
Nam ar y synhwyrau	12	14	14
Diagnosis deuol	2	4	0
Ffoadur	0	4	0
Cyn-bersonél y lluoedd arfog sydd ag anghenion cymorth	1	0	0
CYFANSWM	2419	2669	2378

Tabl 16: atgyfeiriadau ar gyfer llety â chymorth a chymorth fel y bo angen 2018-2021²⁴

Ar ôl newid braidd dim yn gyffredinol dros nifer o flynyddoedd, cynyddodd y nifer o atgyfeiriadau'n sylweddol yn 2019/20 o ran nifer o anghenion:

- Iechyd meddwl
- Bod yn ddigartref neu eisiau atal bod yn ddigartref
- Pobl hŷn sy'n agored i niwed
- Anabledd corfforol
- Cam-drin yn y cartref
- Teulu sy'n agored i niwed

Parhaodd y duedd yma yn 2020/21 ar gyfer y rhai oedd yn ddigartref, oedd angen atal digartrefedd a theuluoedd sy'n agored i niwed, ond ar gyfer yr holl anghenion eraill roedd atgyfeiriadau'n is o lawer. Mae modd rhoi bai'n rhesymol ar aflonyddwch y pandemig, gyda'r angen i ymateb â chyllid ychwanegol i fynd i'r afael â digartrefedd a chau ysgolion yn arwain at angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd.

Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut mae'r pandemig wedi achosi'r angen i 'gynilo' cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud ac maen nhw'n disgwyl cynnydd sylweddol yn y galw ar gyfer 2021/22 a thu hwnt.

Gwasanaethau Presennol y Grant Cymorth Tai

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r gwasanaethau presennol sydd ar gael ac yn dangos sut mae'r rhain wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf.

Math o brosiect	Categoreiddio fesul angen	Cyfanswm yr unedau 21-22	Newid yng nghyfanswm yr unedau o 20-21
Cynlluniau Mynediad y Sector Rhentu Preifat	Tai Cymdeithasol	10	+10
Gwasanaethau ailgartrefu cyflym/Tai dan arweiniad	Tai yn Gyntaf (wedi'i wirio)	30	+30
Gwasanaeth Allgymorth i'r rhai sy'n Cysgu ar y Stryd	Prosiect 'Street Smart'	15	0

²⁴Dydy'r ffigyrau uchod ddim yn cynnwys y rhai sy'n derbyn cefnogaeth gan gynlluniau Anabledd Dysgu presennol neu'r rhai sydd ag atgyfeiriad uniongyrchol at lety brys dros dro neu mewn Lloches.

Math o brosiect	Categoreiddio fesul angen	Cyfanswm yr unedau 21-22	Newid yng nghyfanswm yr unedau o 20-21
Gwasanaethau canoli.	Teulu	15	0
Gorfodi, Archwilio neu Gydymffurfio â Deddfwriaeth Tai	Cyngor ar faterion Tai	0	0
Cymorth fel y bo angen	'VAWDASV'	105	+10
	Anabledd dysgu	27	0
	Iechyd meddwl	65	+20
	Gwasanaethau	20	+20
	Cyn-droseddwr	40	+30
	Phobl Ifainc	10	+10
	Pobl hŷn	20	0
	Generig	990	+85
Llety â Chymorth dros dro	Iechyd meddwl	47	+5
	Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau (Gwlyb)	7	0
	Pobl Ifainc	51	+17
	Generig	50	+12
Llety â Chymorth parhaol	Anabledd dysgu	278	+12
	Arall	45	0
Lloches/Refuge	Benyw	26	+4
Swyddi anstatudol wedi'u hariannu gan y Grant Cymorth Tai (HSG)	Swyddogion Prosiect (dros dro)	2 swydd	+2
Prosiectau Atal Digartrefedd eraill	Cynyddu'r gwasanaeth sy'n cefnogi'r rhai sy'n ddigartref	60	+60
	'HIP'	60	0
Arall	SP - Gweinyddol	2	0

Math o brosiect	Categoreiddio fesul angen	Cyfanswm yr unedau 21-22	Newid yng nghyfanswm yr unedau o 20-21
	Grant Cymorth Tai – Hyfforddiant 'PATH'	20	0
	Gwasanaeth 'Uplift'		0
	Cyllid dros dro	0	0
	Grant Cymorth Tai – Datblygiadau Newydd		0
	Grant Cymorth Tai – Prosiectau Rhanbarthol		0
CYFANSWM CRONNUS		1995	+347

Tabl 17: Gwasanaethau yn eu lle'n barod a'r ffyrdd y mae'r rhain wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf

Y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Oedolion

Mae Adran Strategaeth Tai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau i Oedolion i gynnal darpariaeth ar y cyd i'r rheiny sydd ag anabledau dysgu, anabledau corfforol, a'r rhai sy'n cyflwyno anghenion iechyd meddwl, yn cynnwys dyrannu'r Grant Cymorth Tai.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn canfod 164 lleoliad arbenigol gyda mewnbwn y Grant Cymorth Tai. Mae pob unigolyn sydd mewn lleoliad arbenigol yn cael eu blaenoriaethu i gamu i lawr drwy opsiynau llety gwahanol a allai leihau costau wrth ddod â nhw'n agosach at adref. Bob blwyddyn mae'r Cyngor wedi gweld bod 30% yn fwy o bobl angen cael mynediad at leoliadau arbenigol, ac mae'r Cyngor yn rhagweld dyma fydd y patrwm ar gyfer y dyfodol agos, sy'n golygu y bydd angen tua 360 lleoliad arbenigol erbyn y flwyddyn 2025.

Y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Blant

Mae'r adran Strategaeth Tai hefyd yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau i Blant drwy'r Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned. Mae defnydd y Grant Plant a Chymunedau yn cael ei oruchwyllo gan Brif Swyddog y Garfan Buddsoddi Hyblyg y Cyngor. Mae'r aelodaeth yn cynnwys prif swyddogion y saith grant sy'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, yn ogystal â'r prif swyddogion o'r Grant Cymorth Tai.

Mae cyfrifoldebau strategol a gweithredol am y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau yn rhan o Gyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant. Mae Arweinydd Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned yn atebol yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ran y Cyngor ar gyfer y grantiau yma.

Mae Prif Swyddog y Grŵp Buddsoddi Hyblyg y Cyngor yn cynnwys pob Prif Swyddog y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn sicrhau dull cyson o ddarparu gwasanaethau o safbwynt gweithredol a dylai hwnnw gydweddu wrth gynllunio, monitro ac adolygu o safbwynt strategol. Mae trefniadau cyflenwi gweithredol cafodd eu sefydlu o ganlyniad i weithgareddau 'Pathfinder' yn parhau, megis defnyddio cefnogaeth tai ymyrraeth gynnar ac atal a gomisiynwyd gan y Grant Cymorth Tai i ddarparu arfarniadau tai ar gyfer teuluoedd sy'n agored i'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

Bachwyd ar y cyfle i gydgomisiynu rhwng y ddwy raglen yn 2020-21 i ganiatáu mwy o hyblygrwydd cyllid rhwng y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau, sef:

- Daeth prosiect Cymorth i Fenywod presennol, a gomisiynwyd gan wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, yn rhan o brosiect mwy a gomisiynwyd gan y Grant Cymorth Tai.
- Daeth prosiect Canolfan Cyngor ar Bopeth, a gomisiynwyd gan Grant Cymorth Tai, yn rhan o brosiect mwy a gomisiynwyd gan y Grant Plant a Chymunedau.

Y prif wasanaeth a gomisiynwyd gan y Grant Cymorth Tai ydy'r cynllun Tŷ Llety wedi'i gefnogi ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 21 oed, drwy eu galluogi nhw i gael mynediad i lety mewn cartrefi preifat sydd wedi'u cymeradwyo yn RhCT. Mae'r gwasanaeth yn rhan o nifer o opsiynau llety ar gyfer pobl ifainc sy'n derbyn cefnogaeth gan y garfan 16+, gyda 26 uned yn cael eu comisiynu dros gyfnod o dair blynedd.

Deilliannau Cymorth Tai

Crynodeb

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael yn ymwneud â'r deilliannau o gymorth, sy'n gwneud hi'n anodd deall pam gwnaeth y gefnogaeth ddod i ben mewn ffordd cafodd ei chynllunio neu beidio, ac yn anodd fesur os oedd deilliant y cymorth yn foddhaol i'r cleient.

Mae'n rhaid datblygu a gweithredu'r Fframwaith Deilliant Sengl newydd er mwyn deall llwyr effaith y gefnogaeth.

Mae mwy o gleientiaid yn cyflwyno ag anghenion sy'n fwy dwys na'r arfer, a doedd y gwasanaeth ddim wedi'i gynllunio i gwrdd â'r anghenion yma.

Mae'r rhestr aros yn dangos bod risg nad ydy anghenion pobl ifainc yn cael eu cwrdd gan ddarpariaeth bresennol y gwasanaeth.

Mae'r adran yma'n adolygu data sy'n dangos deilliannau gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai (ar wahân i ganlyniadau dyletswydd ddigartrefedd). Tan yn ddiweddar, mae RhCT wedi defnyddio Fframwaith Deilliannau Llywodraeth Cymru i fesur effaith y gwasanaethau y maen nhw'n cynnig. Yn rhan o delerau ac amodau'r grant, mae'n rhaid i'r Awdurdod lenwi templed deilliannau Llywodraeth Cymru er mwyn profi bod y cynllun yn cwrdd â'r pedwar prif bennawd:

- Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol
- Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth

- Hyrwyddo Cynnydd a Rheolaeth
- Hyrwyddo Iechyd a Lles

Serch hyn, mae'r fframwaith deilliannau wedi ei gydnabod fel fframwaith sydd ddim yn addas ar gyfer diben RhCT felly mae fframwaith newydd yn cael ei gynllunio. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gyflwyno Fframwaith Deilliant Sengl ar gyfer y Grant Cymorth Tai a'r Grant Cyllid Cymunedol. Cafodd y gwaith ei ohirio o ganlyniad i'r pandemig. Mae disgwyliad ynghlwm wrth hyn y bydd adrannau'n dangos bod pob cynllun yn cael ei ddatblygu gyda phwyslais ar integreiddio a chydweithio, ac yn edrych ar gyd-gomisiynu lle bo'n bosibl a bod integreiddio rhwng y grantiau i sicrhau'r deilliannau gorau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y modd mwyaf effeithlon.

Deilliannau Llety â Chymorth

Yn ystod 2020-21, symudodd 102 o unigolion i lety â chymorth ac roedd 83 o unigolion wedi rhoi'r gorau i'w cefnogaeth yn ystod 2020-21. Wedi i'r gefnogaeth ddod i ben, y deilliannau oedd:

- Symudodd 47 o bobl i lety diogel
- Aeth 14 o bobl i aros â theulu neu ffrindiau
- Cafodd 5 o bobl Hysbysiad Ymadael
- Gwnaeth 5 o bobl ofyn i adael y gwasanaeth
- Aeth 3 o bobl i'r carchar
- Gwnaeth 2 berson farw
- Gadawodd 2 berson
- Symudodd 2 berson o'r ardal
- Symudodd 2 berson i Lety â Chymorth parhaol
- Symudodd 1 person Lety â Chymorth lefel isel

Gwnaeth 86% o'r cymorth ddod i ben mewn ffordd wedi'i gynllunio. Awgrymir hyn bod y gefnogaeth ym mhrosiectau Llety â Chymorth yn effeithiol wrth symud pobl ymlaen i lety priodol mewn ffordd cafodd ei gynllunio.

Er nad ydy'r data yn adlewyrchu hyn, nodwyd mewn adborth gan randdeiliaid bod anghenion iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu, sydd wedi cael effaith ar eu camddefnydd o sylweddau. Gall hyn achosi heriau i'r gefnogaeth a'r cyfranogiad. Mae gwasanaethau arbenigol i'r cleientiaid hynny sydd ag anghenion cymorth ynghylch camddefnyddio sylweddau yn rhwystr cyffredin. Mae'r atgyfeiriadau yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaethau arbenigol, ond oherwydd yr oedi mawr sydd rhwng pwynt yr atgyfeiriad hyd at dderbyn y cymorth arbenigol, mae hyn yn effeithio ar gyfranogiad y cleientiaid pan eu bod nhw mewn amgylchedd Llety â Chymorth.

Deilliannau Cymorth fel y bo angen

Roedd 2547 o gleientiaid wedi gadael cymorth fel y bo angen cam 3 yn ystod 2020-21. Y rhesymau am adael y cymorth oedd:

- Gadawodd 1086 o bobl mewn ffordd cafodd ei gynllunio
- Symudodd 478 o bobl i Gam 2
- Symudodd 637 o bobl i Gam 3
- Doedd 272 o bobl ddim wedi ymgysylltu
- Aeth 6 o bobl i'r ysbyty
- Aeth 5 o bobl i'r carchar
- Symudodd 24 o bobl o'r ardal
- Symudodd 10 o bobl i dderbyn gofal ychwanegol
- Symudodd 3 o bobl i dderbyn Cymorth i Deuluoedd
- Gwnaeth 26 o bobl farw

Gwnaeth 88% o'r cymorth ddod i ben mewn ffordd wedi'i gynllunio. Fel sydd wedi'i nodi uchod, dydy'r fframwaith deilliannau ddim yn cynnig yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn deall llwyddiant Cymorth fel y bo angen ar gyfer cleientiaid. Fodd bynnag, gallwn weld bod canran sylweddol o gleientiaid yn gadael y gwasanaeth mewn ffordd cafodd ei gynllunio, a fydd efallai'n datgan bod anghenion wedi cael eu bodloni.

Rhestrau Aros

Gall rhestrau aros rhoi syniad o anghenion o fewn y gymuned sydd heb eu diwallu, er bod y rhestrau yma'n ddynamig ac yn newid yn gyson. Mae cipluniau o'r rhestrau aros ar ddau bwynt yn y flwyddyn nesaf yn dangos bod 20 o bobl ar y rhestr aros ar gyfer Llety â Chymorth ar ddiwedd Mawrth 2021, a oedd yn cynnwys:

- 9 – Cefnogaeth lefel uwch bob awr o'r dydd (Oedolion)
- 6 – Cefnogaeth lefel uwch bob awr o'r dydd (16-24)
- 2 – Lefel canolig rhwng yr oriau 9-5 (Oedolion)
- 2 – Lefel isel (Pobl ifainc rhwng 16-24 oed)
- 1 – Lefel isel (Oedolion)

Erbyn 1 Medi 2021, roedd 21 o bobl ar y rhestr aros, yn cynnwys:

- 7 – Cefnogaeth lefel uwch bob awr o'r dydd (Oedolion)
- 12 – Cefnogaeth lefel uwch bob awr o'r dydd (16-24 oed)
- 2 – Lefel isel (16-21 oed)

Mae hyn yn dangos bod rhagor o alw am Llety â Chymorth ar gyfer pobl ifainc rhwng 16-24 oed ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, yr her wrth ddefnyddio cipluniau yn y ffordd yma ydy'r ffaith bod rhaid adolygu holl atgyfeiriadau ar yr un pryd er mwyn gweld y darlun cyfan, yn cynnwys yr wybodaeth i gyd a'r ffactorau allanol sy'n arwain at gynnyd 1072d yn nifer yr atgyfeiriadau.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Crynodeb

Roedd ystod o safbwyntiau ac argymhellion gan y Rhanddeiliaid:

- Gwella hygyrchedd cyson i bawb, o'r rheiny sydd ag anghenion isel i rai cymhleth, a hyn trwy ddull canolfan un drws/asesiad gyda syniadaeth 'dim drws anghywir'.
- Gwella gweithio'n amlasiantaethol, yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl, camdefnyddio sylweddau ac ar gyfer lleoliadau ag achosion sy'n cyd-ddigwydd.
- Gwella ymateb gweithredol amlasiantaeth i gynhwysiant gyda'r nod penodol o gytuno ar gonsensws ar sut i weithio ar y cyd gyda phobl ddigartref ag anghenion cymhleth neu unigolion sydd mewn perygl o golli eu llety.
- Estyn y cynllun Tai yn Gyntaf ar gyfer anghenion cymhleth.
- Cydnabod bod angen opsiynau byw parhaol ar bobl mewn amgylchedd tai â chymorth.
- Sicrhau bod ymatebion Cymorth Materion Tai yn gyflym i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a'r rheiny sy'n anodd ymgysylltu â nhw. Mae angen cymorth ar bobl pan maen nhw'n dweud bod angen cymorth.
- Adolygu'r defnydd o lety gwely a brecwast, ac ystyried opsiynau eraill am lety dros dro.
- Sicrhau mentrau atal ac ymyrryd yn gynnar ym mhob rhan o Rondda Cynon Taf gael eu halinio o ran strategaeth a'r ffordd maen nhw'n gweithredu.
- Dylai ymyrryd gyda Grant Cymorth Tai ddechrau cyn gynted â phosibl, yn ogystal â bod yn seiliedig ar leoliad. Targedu lleoliadau risg uchel.
- Sicrhau bod Grantiau Cymorth Tai a Gwasanaethau i Blant yn defnyddio cyllid ar gyfer Llety â Chymorth yn effeithiol ac yn deall y deilliannau i bobl ifainc.
- Adolygu gweithdrefnau diogelu ar gyfer pobl ddigartref i sicrhau eu bod nhw'n ddigon cadarn.
- Gweithredu ar argymhellion yr Asesiad Anghenion Iechyd a Digartrefedd.

Roedd ystod o randdeiliaid yn rhan o ddatblygu'r Asesiad Anghenion. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau'r Cyngor, partneriaid statudol megis Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf, ynghyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr y Grant Cymorth Tai. Gwnaeth y rhanddeiliaid gymryd rhan mewn gweithdai ar-lein, cyfweiliadau un i un a holiaduron.

Partneriaid Statudol

Cafodd y rhanddeiliaid eu cwestiynu am Atal Cynradd, megis sut i adeiladu gwydnwch a sicrhau'r amodau ble does dim problemau'n codi yn y dyfodol. Beth yw cynnig cyfredol RhCT? Sut y dylai edrych yn y dyfodol? Dyma rai o'r atebion:

- Mae angen gwell ffocws ar drais teuluol/domestig, trais sy'n effeithio ar bobl ifainc, yn enwedig pobl ifainc ag anghenion cymhleth, i gefnogi cydnerthedd teuluoedd. Mae llawer o waith yn mynd yn ei flaen yn barod trwy fenter Teuluoedd Cydnerth.
- Mae'r swyddog tai sydd wedi'i ariannu gan y Grant Cymorth Tai yn gweithio'n dda. Mae cyfle i gyfuno'r fenter Teuluoedd Cydnerth a'r agenda atal i fod yn rhan o gynllun y Grant Cymorth Tai.
- Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles nodi problemau – gan sicrhau bod pob cyswllt yn cyfri. Yn aml mae'r ymddygiad sy'n cael ei ddangos yn yr ysgol yn gallu

bod yn ddangosydd bydd y person yn wynebu problemau megis iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn y dyfodol.

- Mae proses gan y fenter Teuluoedd Cydnerth i broffilio grwpiau sy'n agored i niwed mewn teuluoedd. Mae cyfle i'r dull fod yn fwy corfforaethol wrth broffilio anghenion y dyfodol rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynllun Cymorth Tai.

Cafodd y rhanddeiliaid eu cwestiynu am Atal Uwchradd, targedu ymdrechion tuag at ardaloedd ble mae risg uchel o weld problemau'n codi. Beth yw cynnig cyfredol RhCT? Sut y dylai edrych?

- Gweler Atodiad 1 ar gyfer enghraifft o gynllun atal cafodd ei ddefnyddio gan Awdurdod Lleol yng Nghymru. Roedd arsylwadau ac argymhellion y gwaith yma yn cyd-fynd â'r adborth cododd gan rhanddeiliaid yn RhCT.
- Cafodd prosiectau Tai yn Gyntaf effaith dda – maen nhw'n atal unigolion rhag symud o amgylch y system. Mae angen datblygu'r rhain yn fwy.
- Mae'n rhaid adolygu rheolau mynediad ar gyfer prosiectau llety gan fod cynnydd yn y rhai sy'n cyflwyno ag anghenion cymhleth e.e., problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar yr un pryd.
- Dylai Panel Cynhwysiant aml-asiantaeth cael ei sefydlu ar gyfer y rhai sy'n wynebu, neu'n agored i waharddiad cyfresol. Dylai fod pwyslais ar gynnig llety i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yng Nghylch Gorchwyl y panel yma.
- Y teimlad oedd y dylid archwilio effeithiolrwydd Llety â Chymorth fel opsiwn i bobl ifainc sy'n gadael gofal mewn perthynas â deilliannau a gwerth am arian.

Cafodd y rhanddeiliaid eu cwestiynu am Atal Trydyddol – e.e. ymyrryd unwaith mae problem, i'w atal rhag gwaethygu a'i atal rhag digwydd yn y dyfodol. Beth yw cynnig cyfredol RhCT? Sut y dylai edrych?

- Mae prosiectau Tai yn Gyntaf yn gweithio'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.
- Mae'r prosiect 'WISDOM' (Tai yn Gyntaf i'r rhai sy'n gadael y carchar) hefyd yn gweithio'n dda.
- Roedd symud unigolion ymlaen yn llwyddiant gan fod unigolion ddim yn cynrychioli, serch hyn roedd hi'n fwyfwy anodd oherwydd diffyg opsiynau tai mwy parhaol ar draws y system.

Cafodd y rhanddeiliaid eu cwestiynu am wariant aciwt h.y., gwariant sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn ond nid yw'n gwneud fawr ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Beth yw cynnig cyfredol RhCT? Sut y dylai edrych?

- Roedd pocedi o arferion da yn RhCT, ond gall agendau cyd-fynd yn well e.e., Teuluoedd Cydnerth a'r Grant Cymorth Tai, ac felly'n defnyddio adnoddau'n well.
- Rhaid bod buddsoddiad gwell ar oedran ifanc e.e., ar oedran ysgol i atal problemau rhag mynd allan o reolaeth.

- Mae cyfle i wella rhianta corfforaethol i sicrhau bod y Gwasanaethau i Blant a'i gydweithwyr tai er mwyn gwella'r broses o gynllunio ar y cyd gan ystyried anghenion plant sy'n agored i niwed a phlant sy'n gadael gofal.
- Dylai fod presenoldeb gweithwyr ieuencid mewn ysgolion (Gweler Atodiad 2 ar gyfer syniadau o sut gall Gwasanaethau Ieuencid cyfrannu at agenda Digartrefedd.)
- Rhaid edrych ar fodel canolfan asesu Caerdydd i asesu ei addasrwydd ar gyfer RhCT. Dylai'r model cynnwys asesiadau amlasiantaeth a darpariaeth gwelyau ar gyfer pob person digartref, yn cynnwys y rhai ag anghenion cymhleth.

Cafodd y rhanddeiliaid eu cwestiynu am beth fydden nhw'n stopio, dechrau a pharhau gyda mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai?

- Parhau â Chymorth fel y bo angen
- Mae angen rhagor o dystiolaeth yn ymwneud â llety â chymorth
- Adolygu'r rhesymau pam dydy rhai lleoliadau ddim yn llwyddo a defnyddio'r canfyddiadau i ddysgu a datblygu
- Adolygu rheolau mynediad ar gyfer Llety â Chymorth a hyd y ddeiliadaeth
- Edrych ar fodel Canolfan Asesu Caerdydd
- Rhaid gwella system rheoli gwybodaeth a'r ffordd y mae gweithwyr yn deall y system
- Sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid yn cytuno ar gynllunio a chomisiynu mewn perthynas ag agenda gwrth-dlodi e.e., yr angen i'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau gweithio â'i gilydd i ddatblygu rhagor o ddulliau cyflenwi sengl
- Gwell gydgomisiynu rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai. Mae angen i'r BCA ar gyfer camddefnyddio sylweddau ymateb i'r anghenion dwys sydd yn RhCT
- Sicrhau bod comisiynu yn seiliedig ar ddata trionglog o ansawdd da sy'n adlewyrchu'r wybodaeth sydd gan y sector gwirfoddol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Prawf a phartneriaid tai.

Rhanddeiliaid y GIG

Cafodd cyfweiliad ei gynnal rhwng Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac Ymgynghorydd o Iechyd Cyhoeddus.

Roedd y cyfweiliad yn cynnwys esboniadau gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ynglŷn â gwella'i hygyrchedd i bobl ddigartref. A bod yn fanwl, gwnaeth y cyfweiliad tynnu sylw at dair adran eang i wella hygyrchedd.

Yr angen i adolygu cylch gwaith ac allbynnau swyddi presennol yn y gymuned ar draws y bartneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd cydnabyddiaeth bod ymarferwyr yn y gymuned a oedd yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar berthynas yn hanfodol. Mae cynllun clir sy'n

amlinellu'r ffordd ymlaen i ddarparu gwasanaethau iechyd drwy fodel Ardal Leol. Roedd yna farn a fynegwyd bod nifer o swyddi a allai orgyffwrdd o ran eu cyrraedd a'u cylch gwaith e.e., swyddi Llywyr Cymunedol a'r Garfan Gofal Gwrthgyfartal. Argymhellwyd bod angen archwilio ar draws y bartneriaeth i sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth weld sut mae'r swyddi/gwasanaethau yn cyd-fynd â'i gilydd.

Yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu gwasanaethau arbenigol a gwella hygyrchedd i wasanaethau'r brif ffrwd i bawb.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai angen i ddull priodol sy'n seiliedig ar ardal fod yn gynhwysol yn ei gyfanrwydd a bod gofyn i rai gweithgareddau dysgu a datblygu sicrhau bod holl wasanaethau'r brif ffrwd mor gynhwysol â phosibl – gan ystyried anghenion mynediad penodol e.e., pobl ag anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl a phobl ddigartref. Roedd yna farn fod angen cydbwysedd rhwng datblygu gwasanaethau arbenigol a gwella hygyrchedd i wasanaethau'r brif ffrwd i bawb.

Yr angen i sicrhau bod yr argymhellion a ddaeth o'r asesiad Anghenion Iechyd diweddar yn cael eu hystyried gan fforymau cynllunio perthnasol.

Roedd asesiad anghenion iechyd diweddar (2020) a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â phobl ddigartref yn tynnu sylw at ddi-ddordeb amlwg yn anghenion iechyd pobl ddigartref yn rhan fwyaf o ardaloedd y gwasanaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd hi'n galonogol i weld y cyrchau y mae rhai gwasanaethau wedi'u gwneud i ddeall a diwallu anghenion iechyd pobl ddigartref.

Mae yna angen i sicrhau bod yr argymhellion a ddaeth o'r asesiad Anghenion Iechyd yn cael eu hadolygu a'u gweithredu'n iawn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â phobl ddigartref gan fforymau partneriaeth bresennol (e.e., Bwrdd Cynllunio) gan gynnwys:

- Iechyd meddwl
- Camddefnyddio sylweddau
- Materion tai a digartrefedd

Mae angen annog ac adeiladu perthynas rhwng rhai gwasanaethau lleol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a darparwyr hostel. Serch hyn, roedd dull amlddisgyblaethol wedi'i gydlynu i ddiwallu anghenion iechyd pobl ddigartref yn llawn, a fyddai'n cwrdd â'r safonau ymarfer gorau ddim i'w weld ar adeg yr asesiad.

Mae ffocws presennol y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â model rheoli ardal yn cynnig cyfle i bob ardal allu profi eu model o wasanaeth er mwyn sicrhau bod anghenion y rhai mwyaf bregus yn y gymuned, yn cynnwys pobl ddigartref, yn cael eu bodloni.

Cafodd yr argymhellion canlynol eu hamlygu yn yr asesiad anghenion iechyd er mwyn i'r awdurdodau a phartneriaid priodol yn yr ardal ystyried y rhain fel blaenoriaethau o ran anghenion iechyd pobl ddigartref.

1. Dylid adolygu gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ddigon cadarn i sicrhau bod unigolion a sefydliadau yn gallu codi pryderon am bobl ddigartref a theimlo bod eu pryderon yn cael eu clywed a'u gweithredu.
2. Dylai fod fforymau presennol, neu grwpiau newydd eu cynnull, i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r camau strategol sy'n deillio o'r asesiad anghenion iechyd. Dylai'r grŵp yma cynnwys rhanddeiliaid allweddol; iechyd, gofal cymdeithasol, tai, cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau lles a dylai fod ganddynt atebolrwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Gosod gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ddigartref dylai fod amcan cyntaf y grŵp yma, gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud gan wasanaethau unigol. Dylid darparu gwasanaeth model integredig ar gyfer pobl ddigartref ym mhob Awdurdod Lleol, sy'n ystyried y safonau cafodd eu nodi gan Gyfadran Iechyd a Chynhwysiant ac yn cymryd agwedd dysgu gweithredol wrth ddatblygu gwasanaethau.
3. Dylid sefydlu fforwm gweithredu ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn gosod sylfaen i adeiladu perthnasoedd rhwng nifer o ddarparwyr y gwasanaeth iechyd a darparwyr hostel, gyda phwyslais mawr ar ofal sylfaenol i wella rheolaeth gofal iechyd o ddydd i ddydd ar gyfer pobl ddigartref.
4. Dylid sefydlu rhwydwaith o weithwyr iechyd proffesiynol gyda diddordeb mewn iechyd a digartrefedd ar draws y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys gofal sylfaenol) i feithrin gallu a dealltwriaeth broffesiynol o anghenion a gwasanaethau i bobl ddigartref.
5. Dylai data sy'n ymwneud â'r defnydd o wasanaethau gan bobl ddigartref ar draws y Bwrdd Iechyd cael eu cyfuno i greu un dangosfwrdd er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o sut mae pobl ddigartref yn defnyddio gwasanaethau iechyd, gan ddefnyddio'r data ar gyfer cynllunio 'IMTP' ac i roi gwybod i'r 'HAVGHAP'. Gall hyn cael ei gyflawni trwy edrych yn fanwl ar y data sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach na angen systemau newydd, ac fe fydd hyn yn rhoi gwell esboniad o anghenion pobl ddigartref ar sail barhaus.
6. Dylid gwella ymwybyddiaeth staff sy'n gweithio mewn rolau allweddol a chlinigol o'r materion a godwyd yn yr adroddiad yma ar sail dull amlddisgyblaethol. Dylai hyn gynnwys pobl sy'n ymweld â'r hostel a'r rhai sy'n cwrdd â phobl ddigartref i ddatblygu empathi ac i herio'i ragfarn anymwybodol. Dylai'r hyfforddiant cynnwys:
 - a. Achosion a'r mathau o ddigartrefedd
 - b. Anghenion
 - c. Meini prawf a threfniadau mynediad
 - d. Cyfeirio mater i lefel uwch
 - e. Rhannu risg
 - f. Rhannu gwybodaeth
7. Mae gwaith clwstwr Taf-elái ar ddigartrefedd yn ddatblygiad arwyddocaol, ac un sy'n bositif iawn. Dylai'r gwaith cael ei ddefnyddio fel peilot i brofi dull o weithio sy'n gallu cael ei fabwysiadu ar draws y Bwrdd Iechyd fel y bo'n briodol.
8. Mae angen darn o waith penodol er mwyn archwilio'n bellach i'r rôl sydd gan y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau wrth gefnogi pobl ddigartref:
9. Mae gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ar gael yn rhai hostel, ond nid pob un. Mae'r rhain yn cael ei ariannu gan ffynonellau tu fas i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(GIG). Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, ac mae mynediad i'r rhain trwy Weithwyr Iechyd Meddwl gofal sylfaenol. Mae pobl ddigartref yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau sy'n agos neu o fewn i'r hostel. Dylai cynnig cyson sy'n hawdd ei gyrraedd fod ar gael ym mhob lleoliad gan fod sefydlogi iechyd meddwl yn sail i bob ymyrraeth arall sy'n ymwneud â phobl ddigartref.

10. Mae angen cysylltiad uniongyrchol a rheolaidd rhwng Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Iechyd Meddwl Argyfwng, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, a gwasanaethau hosteli er mwyn sefydlu dealltwriaeth a dull sy'n cael ei rannu i gefnogi pobl mewn argyfwng, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a darparwyr tai.
11. Dylid ystyried dull iechyd cyhoeddus i atal digartrefedd cynradd, yn cynnwys adolygu'r dull sy'n cael ei ddefnyddio'n lleol gan yr ysgolion a'r gwasanaethau addysg i adnabod y bobl ifainc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn enwedig y rhai sy'n wynebu digartrefedd oherwydd bod y teulu'n chwalu neu mewn argyfwng. Rhaid hefyd asesu os ydy'r trefniadau presennol wedi'u targedu'n ddigonol. Dylai sylw penodol cael ei roi i gefnogi pobl ifainc sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol sy'n wynebu teulu'n chwalu.
12. Rhaid i bartneriaid adolygu'u trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty er mwyn sicrhau'u bod nhw ddim yn cyfrannu at ddigartrefedd yn ddjarwybod.
13. Mae rhai ymatebion gwasanaeth i COVID-19 wedi gweld pobl mewn angen yn cael mynediad yn gynt i'r gwasanaethau – er enghraifft mynediad mwy cyflym i bresgripsiwn ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau. Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau digartrefedd adolygu'r broses er mwyn sicrhau bod y mynediad cyflym yn parhau.
14. Dylai'r Gwasanaethau Iechyd rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau hosteli digartrefedd yn aml, fel rhan o'r diweddariadau gwasanaeth rheolaidd yn ymwneud â sut i gael mynediad i wasanaethau e.e., newidiadau i gael mynediad at wasanaethau deintyddol a gwasanaethau gofal troed ac ati.
15. Dylid datblygu a gweithredu model sy'n cyfuno ymyraethau therapiwtig ar gyfer pobl ddigartref gyda phroblemau iechyd meddwl cydafiachedd a chamddefnyddio sylweddau.
16. Dylid archwilio'n bellach i'r trosglwyddiad gofal sy'n digwydd ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o Garchar y Parc yng nghyd-destun ailgomisiynu gwasanaethau iechyd carchardai.
17. Dylai pob sefydliad ystyried os ydyn nhw'n gallu cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd eraill sy'n hygyrch i bobl ddigartref.
18. Dylid cyflwyno gwasanaeth brechu manteisgar i gwrdd ag anghenion pobl ddigartref ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Dylai hyn ffurfio rhan o gylch gwaith y tîm imiwneiddio pan fo adnoddau dynol yn caniatáu.
19. Dylid annog menywod sydd yn y grwpiau oedran cymwys ar gyfer sgrinio'r fron a serfigol i fynd i'r apwyntiad, gan sicrhau eu bod nhw'n derbyn cefnogaeth.

Adborth gan Ddefnyddwyr y Gwasanaeth

Crynodeb

Yn gyffredinol mae defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'u bod nhw wedi'u cefnogi'n dda gan y gweithwyr cymorth

Mae syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau'n rhai penodol iawn, sy'n atgyfnerthu'r angen i barhau i ganolbwyntio ar anghenion unigol pob gwasanaeth

Mae barn defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau'n deillio o gyn Arolygon Defnyddwyr Gwasanaeth Cymorth Tai Cwm Taf Morgannwg, cafodd ei gynnal ar gyfer y Grŵp Cefnogi Tai Rhanbarthol, a gwaith penodol cafodd ei wneud yn uniongyrchol ar gyfer yr asesiad anghenion yma.

Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth Cymorth Tai Cwm Taf 2020

Cafodd arolwg ei wneud ym mis Rhagfyr 2020 ar draws ardal Cwm Taf, gyda 47 ymateb o Ronda Cynon Taf a 21 ymateb o leoliadau eraill. Pobl sy'n defnyddio Llety â Chymorth neu gymorth fel y bo angen ymatebodd i'r arolwg yma

Wrth ateb cwestiynau yn ymwneud â'r profiad o dderbyn cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud, yn gyffredinol y farn oedd eu bod nhw wedi cael eu cefnogi'n dda gan y gweithwyr cymorth ac roedd siarad dros y ffôn a chwrdd wyneb yn wyneb wedi lleihau'r teimlad o unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau symud i nifer. Roedd yr ymatebion yn dangos yn glir y gwahaniaeth sylweddol a ddaeth o ganlyniad i'r garfan cymorth ar faterion tai.

Yn gyffredinol, roedd pobl yn gweld hi'n hawdd gysylltu â'r gweithiwr cymorth, roedd cymorth ar gael yn sydyn ac roedd y cyswllt cyson "yn wyrth"; gan hefyd bod yn achubiaeth. Roedd hi'n amlwg i weld faint o effaith cafodd y cyswllt cyson a'r gefnogaeth ar nifer helaeth o bobl i gynnal eu hiechyd meddwl, gan osgoi teimladau o unigrwydd. Dywedodd un person:

"Fyddwn i ddim wedi gallu ymdopi heb eich cefnogaeth drwy'r cyfyngiadau symud, a dwi'n teimlo na fyddwn i yma nawr os doed y gefnogaeth ddim yna".

Canolbwyntiodd cwestiynau'r cyfweiliad ar:

- Adnabod prif resymau pam oedd angen help ar bobl
- Beth helpodd fwyaf yn ei sefyllfa bresennol
- Sut byddai modd iddynt fyw bywyd da heb ddibynnu ar wasanaethau
- Y prif rwystrau i oresgyn digartrefedd neu'r anghenion cymorth

Dyma'r gweithgareddau cafodd pobl help gyda:

- Cafodd 15 o bobl help i fyw bywyd iach a heini
- Cafodd 45 o bobl help i aros yn iach yn feddyliol
- Cafodd 23 o bobl help i aros yn iach yn gorfforol
- Cafodd 7 o bobl help i ymgymryd â gwaith / gwaith gwirfoddol
- Cafodd 10 o bobl help i ymgymryd ag addysg / dysgu
- Cafodd 53 o bobl help i reoli'u harian

- Cafodd 20 o bobl help i deimlo'n rhan o'r gymuned
- Cafodd 26 o bobl help i reoli'u perthnasoedd
- Cafodd 64 o bobl help i reoli'u llety
- Cafodd 30 o bobl help i gyfrannu at ddiogelwch ei hunain neu eraill
- Cafodd 29 o bobl gefnogaeth i deimlo'n ddiogel

Roedd pawb yn hapus gyda'r gefnogaeth, ond roedd peidio gweld pobl wyneb yn wyneb yn heriol i nifer o bobl yn ystod y cyfyngiadau symud, yn enwedig os oedden nhw i fod i ddigwydd yn eu cartrefi. Fodd bynnag, roedd pawb wedi datgan bod eu gweithwyr cymorth wedi gwneud trefniadau eraill, naill ai arlein neu dros y ffôn. Doedd mwyafrif y bobl ddim yn gallu cynnig gwelliannau i'r gwasanaethau, heblaw am y sylwadau canlynol:

"Hoffwn i'r panel symud ymlaen a'r broses Ceisio Cartref ddigwydd yn gynt er mwyn osgoi'r oedi ac i alluogi ni i symud ymlaen yn gynt, gan ein bod ni'n barod i symud i fyw'n annibynnol."

"Ces i anhawster cael mynediad at gyngor cyfreithiol neu gymorth – ces i fy atgyfeirio i'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth cyn iddyn nhw symud fi ymlaen i rywun arall. Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i wedi cael cefnogaeth yn y maes yma."

"Does dim digon o leoliadau llety dros dro."

"Oes, mae rhwystrau, ond dwi'n meddwl taw materion cyllid a'r llywodraeth sy'n gwneud hyn yn waeth."

"Hoffwn fod wedi derbyn rhagor o gymorth i deimlo'n rhan o'r gymuned ac addysg bellach, ond doedd hyn ddim yn bosib oherwydd y cyfyngiadau symud."

"Rydw i angen cymorth Seicolegol, ond rydw i wedi derbyn atgyfeiriad i weld y meddyg."

"Hoffwn gael cymorth wyneb yn wyneb pan mae pethau'n tawelu unwaith eto."

Fel sy'n hawdd weld o'r adborth, cafodd nifer o bobl problemau wrth dderbyn cymorth arlein; yn y dyfodol hoffai pobl dderbyn cymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neu gyfuniad o'r ddau:

- Roedd 13 o bobl eisiau galwadau ffôn
- Doedd neb eisiau galwadau rhithwir yn unig
- Roedd 21 o bobl eisiau cwrdd wyneb yn wyneb
- Roedd 36 o bobl eisiau cyfuniad o'r ddau.

Pan ofynnwyd a oedd hi'n hawdd ddod o hyd i gymorth, dywedodd 61 o bobl oedd, gydag 8 o bobl yn dweud nac oedd. Dyma'r rhesymau rhoddodd y rhai cafodd anhawster wrth ddod o hyd i gymorth:

- Rydw i'n dioddef ag iselder
- Cefais wybod am restr aros hir
- Roedd y gwasanaethau tai yn anodd ddod o hyd i, fel yr oedd gwasanaethau eraill
- Roeddwn i wedi gweld hi'n anodd iawn, ac roedd llawer o ymladd a dadleuon yn digwydd gartref
- Rydw i eisiau symud i fyw â chymorth, mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu fi i wneud hyn
- Roeddwn i'n cael trafferth felly ffoniais fy ngweithiwr cymorth, a dechreuodd hi gefnogi fi eto.

Arolwg defnyddwyr gwasanaeth 2021:

Cafodd defnyddwyr gwasanaeth eu harolygu fesul cyfweiliad â'u gweithiwr cymorth ar ôl iddyn nhw dderbyn amserlen. Roedden nhw wedi cael eu cwestiynu am eu barn yn ymwneud â sut roedden nhw'n cael cymorth o'r blaen neu ar hyn o bryd, neu sut maen nhw'n teimlo y byddai modd iddynt dderbyn cymorth yn wahanol yn y dyfodol. Roedd amryw o wasanaethau yn cael eu cynrychioli, yn cynnwys cymorth sefydlog a chymorth fel y bo angen megis Cymorth fel y bo angen Cynon, Cymorth Tenantiaeth Llamau, Pobl, Tai â Chymorth RhCT, Hafod a Trivallis.

Gwnaeth 38 o ddefnyddwyr gwasanaeth rhoi adborth, gyda 21 yn ddynion ac 17 yn fenywod. Roedd ystod oedran eang rhwng y defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi rhoi adborth, gyda'r unigolyn ieuengaf yn 17 oed a'r hynaf yn 85 oed. Oedran cymedrig y rhai rhoddodd adborth oedd 37 oed.

Atodiadau

Atodiad 1

Enghraifft o gynllun atal gafodd ei wneud gan Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Roedd rhai o'r arsylwadau ac argymhellion o'r gwaith yma yn cyd-fynd ag adborth gan randdeiliaid yn RhCT.

	Mewnbwn Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth Ieuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
Atal Cynradd Adeiladu gwydnwch – creu'r amodau ble does dim problemau'n codi yn y dyfodol. Dull cyffredinol. Mae atal cynradd yn osgoi achosion newydd o ddigartrefedd drwy ymyrryd yn dda cyn	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr ieuenctid wedi'u hyfforddi'n briodol Pencampwr y cabinet am Atal Cynradd Ysgolion a Gwasanaethau Ieuenctid i gyflwyno dull mesur lles ar gyfer holl blant a phobl ifainc 	<ul style="list-style-type: none"> Helpu pobl ifainc i ddatblygu sgiliau bywyd Helpu pobl ifainc â'u datblygiad personol Helpu pobl ifainc â materion iechyd a lles Hwyluso addysg yn ymwneud â phynciau wedi'u targedu i bawb yn hytrach na grwpiau targed – lleihau stigma a 	Datblygodd pobl ifainc gwybodaeth a sgiliau	Mae gen i rywle i fyw sy'n ddiogel

	Mewnbyn Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth Ieuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
gall digartrefedd ddigwydd		<p>sicrhau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant sgiliau bywyd Cyllidebu Rheoli llety Hyrwyddo ymwybyddiaeth realistig yn ymwneud ag opsiynau llety 		
	<ul style="list-style-type: none"> Dull corfforaethol i ymyriadau oed ysgol Gweithwyr ieuenctid wedi'u hyfforddi 	<ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth ddigartrefedd i bob person ifanc Cytuno ar gynllun cymorth/ymyriad wedi'i gydlynu gydag ysgolion/Gyrfa Cymru a cholegau lleol i bawb o 14 oed. 	Pobl ifainc yn ymwybodol o'r materion allweddol yn ymwneud â digartrefedd	<p>Rydw i wedi cwblhau fy addysg ffurfiol/ysgol</p> <p>mae gen i'r sgiliau, hyfforddiant a/neu'r cymwysterau i fy ngalluogi i ddechrau gwaith</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr ieuenctid Sefydliadau corfforaethol i gofrestru i asesu, monitro, a gwella perthnasoedd a phwrpas fel gweithgaredd allweddol ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg, tai, a Gwasanaeth Ieuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Cymryd rhan mewn gwaith achos aml-asiantaeth o amgylch unigolion Monitro cylchoedd cefnogaeth Sefydlu gweithgareddau sy'n annog meithrin cysylltiad â phobl eraill ac adeiladu ar gryfderau a diddordebau presennol 	Derbyniodd pobl ifainc cymorth aml-broffesiynol wedi'i deilwra	<p>Mae gen i berthnasoedd sy'n sefydlog, cyson, iach ac agos</p> <p>Mae gen i berthynas cefnogol gyda fy nheulu</p>

	Mewnbyn Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth Ieuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr Ieuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Gweler uchod Dangos y ffordd i wasanaethau sy'n cynnig cyngor ac arweiniad addas i bobl ifainc Gweithwyr Ieuenctid wedi'u hyfforddi mewn iechyd meddwl a chymorth cyntaf Mae gweithgareddau'r Gwasanaethau Ieuenctid wedi'u cynllunio i leihau unigrwydd 	Mynediad at gyngor ac arweiniad addas i bobl ifainc	Mae gen i iechyd meddwl da
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr Ieuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Hwyluso gweithgareddau dysgu sy'n cyfoethogi bywyd a sgiliau byw'n annibynnol ar gyfer pob person ifanc Dysgu cynhwysol i bawb gyda chyfeiriad penodol i'r grwpiau sydd â risg uchel o fod yn ddigartref 	Mae pob person ifanc yn gallu cael mynediad i wasanaethau ieuenctid	Rydw i'n gadarn yn ariannol

	Mewnbwn Gwasanaeth leuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth leuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr leuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Gweler uchod Cynorthwyo darpariaeth Lles Addysg lle y bo'n addas i sicrhau bod pobl ifainc sy'n agored i'r risg o gael eu gwahardd o'r ysgol yn aros yn yr ysgol er mwyn cwblhau'u haddysg Cyfrannu at gynllun cymorth/ymyriad wedi'i gydlynu ag ysgolion/Gyrfa Cymru a cholegau lleol i bawb o 14 oed 	Cefnogi pobl ifainc i gwblhau'u haddysg	Mae gen i'r sgiliau i fyw'n annibynnol
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr leuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi cymorth i bobl ifainc i adeiladu'u rhwydwaith o ffrindiau Adnabod cryfderau pobl ifainc gan eu manteisio arnyn nhw wrth adeiladu perthnasoedd iach (yn cynnwys perthnasoedd ar draws cenedlaethau) 	Mae gan bobl ifainc grwpiau ffrindiau/gweithgareddau yn eu cymunedau	Rydw i'n gwneud y mwyaf o'r diddordebau sydd gen i

	Mewnbwn Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth Ieuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith ieuenctid sy'n cael ei lywio'n seicolegol 	<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithwyr ieuenctid yn adnabod heriau iechyd meddwl cynnar, yn darparu ymyriad iechyd meddwl Haen 1 ac yn rhoi gwybod i wasanaethau eraill lle y bo'n berthnasol Mae gweithgareddau'r Gwasanaethau Ieuenctid wedi'u cynllunio i leihau unigrwydd 	Mae gan bobl ifainc y sgiliau sydd eu hangen i reoli'u hiechyd meddwl	Rydwn i wedi datblygu gwydnwch a/neu strategaethau ymdopi yn dilyn patrwm o drawma cynnar
<p>Atal Uwchradd Targedu ymdrechion tuag at ardaloedd ble mae risg uchel y bydd problem yn codi. Gweithredu dull sydd wedi'i dargedu, sy'n sicrhau datblygiad egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar Mae achosion newydd yn cael eu delio â mor gynnar â phosib gan y gwasanaeth Atal Uwchradd, yn aml pan mae person ifanc yn</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Ieuenctid wedi'u targedu ble mae cyllid arbenigol yn caniatáu darpariaeth ychwanegol (yn uwch a thu hwnt i'r ddarpariaeth gyffredinol statudol) Targedu cyllid cyffredinol i 	<ul style="list-style-type: none"> Adnabod y bobl ifainc sy'n wynebu risg cynnar o fod yn ddigartref Darparu cyngor ac arweiniad wedi'i deilwra i amgylchiadau unigol Cefnogi pobl ifainc i gael mynediad at wasanaeth cyfryngu teuluol Gweithio o fewn cynllun ymyrraeth wedi'i gydlynu ag ysgolion, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector Defnyddio'r offeryn i asesu pobl ifainc sy'n 'risg uchel' 	Mae'r bobl ifainc 'risg uchel' yn cael eu hadnabod, ac mae cymorth penodol yn cael ei rhoi ar waith	Daeth patrwm o ymddygiad atgwympwr/defnyddio gwasanaethau i ben

	Mewnbyn Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth Ieuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
cyflwyno i'r Awdurdod Lleol				
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr ieuenctid crefftus Carfan ymroddedig i weithio gyda phobl ifainc 'NEET' 	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi pobl ifainc sydd ddim yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n ddi-waith i ddechrau'r daith i gyflogaeth Gweithio o fewn cynllun ymyrraeth wedi'i gydlynu ag ysgolion, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, colegau ac ati. Dechrau cynllunio ar gyfer pontio o 14 oed 	Mae pobl ifainc yn canfod a dilyn llwybr hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol	Dydw i ddim wedi bod yn y carchar/canolfan gadw ddiogel am gyfnod hir
Cyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r garfan arweinyddiaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn cymryd rhan mewn cynllunio aml-asiantaeth ar gyfer atal digartrefedd a darparu gwasanaethau ar lefel leol Mae'r contractau yn adlewyrchu'r 	Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhan o ymateb aml-asiantaeth o atal digartrefedd	

	Mewnbyn Gwasanaeth leuenctid	Gweithgareddau	Effaith y Gwasanaeth leuenctid	Deilliannau'r dyfodol (cyn iddynt fod yn 25 oed)
	<ul style="list-style-type: none"> Contractau allanol 	<p>atal cynradd ar gyfer digartrefedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - cynhwysiant - gwybodus yn seicolegol - cyfeirio ar gyfer cyngor ac arweiniad <ul style="list-style-type: none"> Cefnogaeth ar gyfer dulliau o gefnogi cyfoedion ar gyfer grwpiau risg uchel/grwpiau sydd wedi'u heithrio: <ul style="list-style-type: none"> - Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol ('LGBT+') - amrywiaeth niwro-ieithyddol Mae pob contract yn adlewyrchu prif ffocws atal cynradd o atal digartrefedd 	<p>Mae'r holl wasanaethau yn deall ac yn dilyn ethos ataliol tuag at ddigartrefedd</p>	

